
# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 168 HYDREF 1990

## Chwarel y Garth

(Tudalen 7)



Ifan Wyn

CYNNWYS


| | | | |
|---|---|---|---|
| Colofn Shân | 3 | Safbwynt | 7 |
| Sêr | 5 | Y Calendar | 4 |
| Bwth Ruth | 4 | Croesair | 19 |


YN RHAD AC AM DDIM

# RAYMOND WILLIAMS 1928-1990

**Ar ran Eglwys y Tabernacl braint yw cael talu teyrnged i'n diweddar Weinidog Y Parchedig Raymond Williams, Gweinidog ffyddlon i Iesu Grist a chyfaill rhadlon i gymaint ohonom. Yn ei farw cynamserol daeth pennod arall i ben yn hanes Eglwys y Tabernacl ac yn wir ym myd crefydd a'r gwasanaeth sydd yn deillio ohoni oherwydd Efengyl mewn dillad gwaith a gyflwynodd ac a goleddodd. Yn hiraethu ar ei ôl mae Eglwys wasanaethgar a hyderus ac iddo ef mae'r diolch am arweiniad ac anogaeth ar hyd y blynyddoedd.**

Fel llawer o'n gweinidogion, cynnyrch yr hen Sir Gaerfyrddin oedd Raymond a'i wreiddiau yn ddofn yn ardal Llandybie. Yn aml soniai am yr hen gartref ac nid anghofiodd y graig y naddwyd ef ohoni. Mae'n amlwg mae bachgen direidus oedd ac 'roedd ganddo lu o storiau am anturiaethau ei frodyr ac yntau. Yn aml bu gwrthdaro rhyngddynt a'r awdurdodau megis y prifathro a'r plismon lleol.

Yma hefyd yn Llandybie yn gynnar yn ei lencyndod y cafodd ei swyno a'i gyfareddu gan alwad yr Efengyl a bod yn weinidog oedd ei unig uchelgais. Diolchwn i Dduw am roddi ei law arno ac i'r cyfeillion hynny megis Y Parchedig G. J. Watts, Gweinidog Salem Llandybie am weld y potensial ynddo a'i gefnogi.

Ar ôl cyfnod yng ngholeg Trefeca a Choleg yr Enwad yng Nghaerdydd dechreuodd ar waith ei fywyd yn Noddfa Trecynon lle y cyfarfu â Margaret a ddaeth yn briod iddo. Tybed a oedd hyn wedi dylanwadu arno i dderbyn yr alwad? Wedi hyn cafodd feysydd llwyddiannus yng Nghaersalem Dowlais ac yna Hebron a Moriah Tonpentre. Ym 1966 derbyniodd yr alwad i'r Tabernacl a dechreuodd ar ei weinidogaeth fel olynydd i'r Parchedig D Myrddin Davies ym mis Ebrill 1967.

Y tro cyntaf i mi gyfarfod â Raymond oedd deng mlynedd ar hugain yn ôl mewn priodas yn Nowlais. Achlysur llawen a llawenydd by ein cydweithio ar hyd y blynyddoedd. Cofiaf hefyd am Rhodri, pryd hynny, bachgen bach â mop cyrliog o wallt melyn. Bu ef a'i dad yn agos iawn ar hyd y blynyddoedd ac edmygwn deyrngarwch y tad i'r mab a'r mab i'r tad mewn dyddiau digon anodd i'r ddau ohonynt.

Ym 1965 fe'm hetholwyd, ynghyd â chwech arall, yn ddiaconiaid yn y Tabernacl a gwahoddwyd Y Parchedig Raymond Williams i bregethu'r bregeth siars i ni. Ymhen dwy flynedd 'roedd angen gweinidog arnom ac 'roedd Raymond bron hanner ffordd i gael yr alwad gan fod o leiaf saith diacon o'i blaid. Beth bynnag yw eich syniad am alwad credaf fod yna berson arbennig i sefyllfa arbennig ac mae tystiolaeth y blynyddoedd wedi cadarnhau'r gred honno.

Er ei holl ddoniau a'i weithgarwch dros yr iaith a'i diwylliant credaf mai fel Gweinidog y carai gael ei gofio. 'Roedd yn gyfuniad perffaith o'r pregethwr a'r bugail – pregethwr proffwydol wedi trwytho ei hun yn drwyadl yn yr ysgrythurau ac yng ngweithiau diwinyddion o bob oes. Credai ym mhwysigrwydd yr addoliad a phregethodd Efengyl gras a chariad yn gyson Sul ar ôl Sul.

Fel bugail 'roedd ganddo'r ddawn i uniaethu ei hyn ag anghenion ei bobl. Medrai wylo gyda'r rhai oedd yn wylo a bod yn llawen gyda'r rhai oedd yn llawen. Nid oedd amser na phellter yn medru ei rwystro i gyflawni ei waith a rhoddodd ei wasanaeth yn ddirwgnach heb gyfri'r gost. Cofiaf yn dda iddo dreulio dwy noswaith wrth fy ngwely yn Ysbyty'r Waun ar adeg ddigon argyfyngus. Bu'n deyrngar dros gyfnod o ddeugain mlynedd i bopeth da a dyrchafol, i bobl ei ofal i Gymanfa ac Undeb ac i'w frodyr yn y Weinidogaeth.

Dywed Raymond mewn un man mai anrhydedd fwyaf ei fywyd oedd cael ei alw i weinidogaethu i'r Tabernacl. Ein braint ni oedd ei gael am dair blynedd ar hugain ac er bod siom a hiraeth yn ein calonnau mae yna ddiolchgarwch am ei fywyd, ei weinidogaeth a'i gyfeillgarwch. Mae'n dal i lefaru ac erys ei ddylanwad yn hir yn ein plith.

Cydymdeimlwn yn ddidwyll a Margaret, Rhodri a'i deulu a'i frodyr a'i chwiorydd a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth a'u cariad mewn hindda a drycin i un a oedd mor annwyl.

Credaf fod geiriau'r Apostol Paul at Timotheus yn addas iawn i'w gofio.

"Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd."

**Eurig Evans**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN TACHWEDD/RHAGFYR**
**19 – 10 – 90**


TWRCH TRWYTH
YN EISIAU
DAWNSWYR GWERIN

Yn enwedig dynion!

Nid oes angen profiad
dim ond brwdfrydedd

— o —

Cysyllter â Dewi ar
(0222) 233209

Jac -yn y- Bocs

NWYDDAU PREN O SAFON I BLANT

SIOE GREFFTAU

CASTELL CAERDYDD

13eg — 14eg HYDREF

Huw a Leonie Hall Williams

# COLOFN SHÂN

**Wel, dyma fi wedi cael bod ar wyliau, a gwyliau i'w gofio oedd o hefyd, yn llawn profiadau, rhai mae'n rhaid cyfadda yn fwy melys na'i gilydd. Cyffrous tu hwnt hyd at fod yn frawychus oedd y profiad o fod mewn cwch bach o'r enw "Maid of the Mist" wrth droed a Niagara fawr. Er cael côt law ar y cwch roeddwn yn wlyb doman dail a golwg dychrynllyd arnai, ond neb fel petae nhw'n sylwi na malio!**

O'r oll a welais Quebec sy'n aros yn y cof. Dinas hardd a'i phobol yn ymfalchio ynddi – pob man yn lân a destlus, gerddi hardd ac adeiladau mawreddog. Mi wyddwn wrth gwrs bod talaith Quebec yn ddwyieithog, yr hyn nad oeddwn i wedi sylweddoli oedd bod yno ganran mor uchel sydd yn siarad Ffrangeg yn unig ac heb fedru'r Saesneg. Dyma enghraifft o Wladfa wedi llwyddo. Tra yno wrth gwrs, roedd rhywun yn ymwybodol o'r tensiwn a'r cythrwfwl rhwng yr Indiaid a'r Quebeciaid, ac fel ryda ni Gymry Cymraeg, y galon yn teimlo ac o blaid yr Indiaid. Wedi'r cwbwl onid hwy yw deiliaid dilys cynta'r wlad? Chefais i'r un cyfle i drafod hyn â neb. Ond bûm yn gwylio ac yn gwrando ar ddarllediadau ac adroddiadau ar y teledu. Rhyfeddais hefyd cyn lleied o sôn am Brydain oedd ar y cyfryngau ac yn y papurau newydd. Prin bod Prydain yn Fawr erbyn hyn. Gyda llaw, roedd safon y teledu yno yn echrydus. Go brin ein bod ni yn sylweddoli cystal gwasanaeth sydd gennym. Er ein holl gwyno, mae'r hyn sydd gennym ni yn frenin o'i gymharu â'r hyn a welais i yn Canada.

Tra yn Quebec roedd gen i ofn i bawb feddwl mai Saesnes oeddwn – felly Bon jour – gwenu'n ddel a deud Pays de Galles fu hi ym mhob siop a chaffi. Do, cafwyd profiadau mawr, bach a difyr – a'r chwerw? Wel do, mi gefais wenwyn bwyd ym Montreal a theimlo'n giami iawn am rai dyddiau, ond y criw yn hynod o ffeind a chlên iawn efo mi. Ond, fe ddaeth bendith yn sgil yr aflwydd hwnnw – rywsut ryw fodd fe adewais hanner 'stone' ar ôl yno, hynny'n plesio'n arw.

Yn ôl at y gaib a'r rhaw ydy'n hanes ni i gyd rwan ynte – pawb a'i atgofion am wyliau yn pylu a cheisio dod o hyd i egni i wynebu prysurdeb y gaeaf yw ein tasg. Mae arnai ofn ar ôl y gwyliau fod fy nhraed bach i yn cosi yn o arw ac yn dyheu am gael gymowta eto. Ble ra i dwch? Mae'n siwr y cewch chi wybod!

Halen ar friw ydy mynd i'r siop yn Sain Ffagan a thendio ar bobol sy'n mwynhau eu gwyliau. Pobol o bob gwlad ac mae sgwrsio â nhw yn rhoi min ar yr awch i grwydro. Bodloni hyd yma ar fynd at Elin



i Lundain dros y Sul ac mi af i'r Felinheli toc.

Braf yw clywed ymwelwyr â Sain Ffagan yn canmol popeth, harddwch Cymru a chynhesrwydd a croeso. Digwyddodd peth digri yn y siop heddiw. Daeth gwraig ataf a gofyn yn gwbwl ddifrifol am "can of Dragon Juice", wedi clywed canmoliaeth fawr iddo medda hi. Bu raid imi gyfadda wrthi na chlywais i eriod am y fath beth, ond roedd hi'n bendant sicir i fod o'n bod. Sut beth fyddai "Dragon Juice" tybed – rhywbeth a'n dyrru i gychwyn siwr o fod! I chi sy'n fwy mentrus na fi – dyna ichi syniad i agor busnes – dim mymryn mwy gwallgo nac anymarferol na llond tun o Scotch Mist, nac ydy?

Os yda chi wedi darllen cyn belled â hyn mi fyddwch wedi sylweddoli bod fy meddwl bach i yn dal yn segur ac ar ei wyliau ac nad oes gen i mewn gwirionedd ddim i'w ddweud, dim ond bod raid rywsut lenwi gofod. Gobeithio y daw fflach o rywle'r mis nesa. Pwy ŵyr ein hynt erbyn hynny.

ON: Wps! Shân Em wedi cael cam gwag! Cael paned yn Sain Ffagan a gweld llond silff o-ia-'dach chi'n iawn – Dragon Juice. Mae o YN BOD cofiwch!

# A OES HEDDWCH?

**Mae un peth, o leiaf, sy'n gyffredin i holl gynyrchiadau Cwmni BRITH GOF sef dychymyg cyffrous. At hynny, mae safon y cyflwyno ar bob llaw yn gwbl broffesiynol a gorffenedig. Roedd yr holl elfennau hyn i'w gweld a'u clywed yn PAX a gyflwynwyd yn Neuadd Dewi Sant fel rhan o Ŵyl Gelfyddydau Caerdydd.**

Mae'r sioe'n dechrau wrth i chi gerdded i mewn i'r awditoriwm. Mae'r cerddorion wrthi'n dawel yn gosod yr awyrgylch tra bo'r llwyfan yn cael ei baratoi at yr agoriad. O ran y llygad fe hoelir y sylw'n syth gan adeiladwaith anferth o sgaffaldiau sy'n ymddangos yn y gwyll fel eglwys gadeiriol. Cyn i'r cyflwyniad ddechrau o ddifri mae dyn yn sylweddoli bod newid eisoes wedi digwydd.

Nid Neuadd Dewi Sant mohoni mwyach ond darn gweladwy a chlywadwy o ddychymyg BRITH GOF.

Fel arfer, mae thema ganolog i'r gwaith ac roedd cael syniad amdani yn y rhaglen arbennig yn bwysig ac yn allweddol. Yn y perfformiad fe gymerwyd awr a hanner ddi-dor i ddatguddio ac i bortreadu'r thema. Cawsom weld y cyfan drwy gymylau cyson o niwl a tharth, drwy ddefnydd cynnil o oleuadau, drwy chwyrlio ac ymgordeddu'r angylion wrth iddynt ddisgyn mewn llifeiriant o symudiadau baletig o'r uchelderau.

Yn gefndir i'r llwyfannu oedd cyfeiliant cyson o leisiau ac offerynnau gan gynnwys defnydd helaeth o offer electronig soffistigedig.

Roedd cael y cyfan i asio yn wyrth o gyfarwyddo ac roedd dyn yn rhyfeddu'n aml at y dyfeisgarwch, y datgan a'r dehongli. Dyma esiampl nodedig o gynhyrchu amlgyfryngol.

Ond wedi dweud hyn rhaid cyfaddef i'r cyflwyniad fod yn ormod o bwdin i mi. Doedd dim seibiau, dim uchafbwyntiau, dim gollyngdod. Roedd lefel uchel y sain yn fyddarol am gymaint o'r amser, roedd deall y geiriau yn y ddwy iaith yn amlach na dim yn anodd oherwydd y gymysgedd sain ac mae cael y fath ymosodiad am awr a hanner yn dipyn o dreth ar y glust.

Roedd y gofynion cerddorol yn fawr ac yn anodd dros ben ond fe lwyddwyd yn rhyfeddol i wireddu gweledigaeth gerddorol John Hardy. Felly hefyd y Llwyfannu. Ond wedi'r holl ymdrech glodwiw, yr argyhoeddiad a'r cyflawni, ês allan wedi'r pwniad diwylliannol beiddgar, heb fy modloni fel y dymunwn.

Ar y llaw arall roedd y gynulleidfa fawr yn frith o genedlaethau tipyn iau na minnau ac roedd hi'n braf eu gweld yno ac yn ymateb mor frwd. Gwyn eu byd a llongyfarchion i drefnwyr Gŵyl Caerdydd am gynnig sioe mor fentrus a honno'n ymdrin â phroblem o bwys a'i wneud yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Wynne Lloyd**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN TACHWEDD/RHAGFYR**
**19 – 10 – 90**

# Y CALENDAR

**HYDREF:**

**8:** 7.30 Merched y Wawr – Minny St. Mr Gwynfor Owen – Rhyfeddod Pren.

**12:** Cymry'r Wenallt yng ngwesty'r Pantmawr am 8 Noson Agoriadol. Siaradwr: Gareth Davies, pennaeth adran chwaraeon y BBC.

**12:** Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn festri Capel Bethel, Penllin Road am 7.30. "Cwm Gwerin Cwm Taf a'r Cyffiwian" gan E Wyn Jones.

**15:** Cymdeithas Wyddanol Cylch Caerdydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8. "Gwybodaeth neu Anwybodaeth – oes eto?" Dr Neville Evans ac Illtyd Lewis. Cylch Llyfreddol Caerdydd. Ystafell G1 Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru, Column Road am 7.00pm. "Hywel Dda a'r Llyfrau Cyfraith" – Dr Christine Jones, Coleg Prifysgol Abertawe.

**28:** Cymdeithas Minny Street am 6.00pm. Gwasanaeth y Gymdeithas. Gwraig Wladd – Mrs Elenid Jones (Cymorth Christnogol).

**31:** Cylch Cinio'r Barri a'r 7.00pm. Siaradwr y Dr Brian Powell (y Brifysgol Agored).

**31:** 7.30 Cwmni Drama'r Gadwyn Radyr Cyfarfod Cyffredinol, Neuadd Capel y Methodistiaid.

**TACHWEDD:**

**2:** Ym mhrif ddarlithfa Ysbyty'r Waun am 7.45pm. Cyngerdd er budd Cronfa Ymchwil Trawsblannu Mêr Esgyrn Cymru. Cyflwynydd Sara Jones (HTV). Artistiaid: Wynford Evans (Tenor), Janice Davies-Rees (Soprano) a chôr Clwb Rygbi Treforys. Tocynnau £5 o siop Oriel.

**2:** Ebeneser – "Emynau ac Emynwyr" Parch Rhys Nicholas Cymrodorion Caerdydd.

**6:** Cymdeithas Minny Street. Eilonwy a T J Rhys Jones – "Taith ar draws yr Unol Daleithiau".

**7:** "Prydar Frys" Ann Ladd Merched y Wawr Radur.

**9:** Cymry'r Wenallt yng ngwesty'r Pantmawr am 8.00pm. Siaradwr: Aled Gwyn. Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn festri Capel Bethel, Penllin Road am 7.30pm. Mrs Owenna Hopwood yn "Hel Achau".

**12:** 7.30 Merched y Wawr – Minny St – Mrs Rae Evans.

**12:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8.00pm. Mr Ernest Williams – "ENTROPI AC ECONOMEG".

**16:** Cylch Llyfryddol Caerdydd yn Ystafell G1. Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru, Column Road am 7.00pm. "Freud a Chymru" gan Dr Ian Davies, Blaendulais.

**20:** Cymdeithas Minny Street yn ymweld â Chymdeithas Tabernacl.

**30:** Cylch Cinio'r Barri a'r fro: Noson y Gwragedd. Y Wraig Wadd: Eilonwy Rhys Jones.

# BWTH RUTH

**Wel helo pa hwyl sydd?** Mae'r dydd yn tynnu ato, mae'n bryd rhoi'r bylbiau ddaw a chymaint o bleser Gwanwyn nesa yn y pridd, efallai eich bod chi wedi ymaelodi mewn ysgol nos y tymor yma, wel mae'n amser i mi ddod â'r gwaith Sampleri allan gogyfer â'r cwrs ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Tachwedd. Dyna ddynodi yn siŵr ddyfodiad yr Hydref.

Fel arfer mae'r coed Masarn o gwmpas y Ganolfan Ddarlledu yn Llandaf wedi dechre crino erbyn diwedd Awst ond nid felly eleni – mae'n dri chwarter ffordd drwy fis Medi a newydd ddechre newid eu lliw maen nhw.

Mae'r Medelwr Mawr wedi cribinio yn o galed yr haf yma yn ardal Caerdydd.

Ydach chi'n cofio trychineb y ddaeargryn yn Ne'r Eidal a fan wag yn cael ei chynnig i Raglen Helo Bobol – gan ŵr busnes o Glwyd – a'r her oedd llenwi'r fan gyda dillad a phetheuach a dyna hysbysebu am ddreifar i fynd â'r fan i'r Eidal. Doedd Hywel Gwynfryn ddim wedi gorffen ei gwestiwn nad oedd y Parchedig Raymond Williams wedi cynnig y byddai o a'i fab Rhodri ym mynd a'r fan. Dyna ddifyr oedd derbyn y galwadau ffôn plygeiniol yn fyw ar y rhaglen a'r Parchedig Raymond Williams hefo'i straeon lliwgar o'r daith, a'r fan yn torri lawr a disgrifiadau llygaid dystion wedi cyrraedd ardal y trychineb.



Mi daenodd Raymond Williams ei hun dros ardal eang – diolch am gael ei nabod.

Mae yna le gwag arall yn ein cornel chwith ni yn Nghlwb y BBC, a stafell wag yn yr Ystafell Newyddion. A rhyw wacter ynon ni fel criw. Mae ganddon ni i gyd ein stori bersonol am Ifan Wyn Williams, y dyn oedd yn gallu bathu gair yn rhwydd, llais melfedaidd, darlledwr braf a chalon fawr – doedd yna 'r un diwrnod yn mynd heibio pan fûm fu'n cael triniaeth am gyfnod o 3 mis ym 1984 nad oedd Ifan ar y ffôn – i holi sut own i, sut oedd mam yn mynd i ddod i ben, oedd hi isio lifft i rywle neu angen rywbeth.

Ond fy nghof arbennig i fydd amdano yn dod acw am swper a phob un wedi dod â'i hoff gyfrol o farddoniaeth hefo nhw! Roedd Ifan wedi gwneud cais am bwdin arbennig 'Queen's Pudding' – a dyna gafwyd ar ôl Stwnsh Rwdan a lau – rêl swper chwarel!!! Mi glywa'i o rwan yn darllen – "Mae'r cyrn yn mygu er pob awel groes" a dwi'n gwybod mai gwên ddaw i mi wrth fynd heibio Tŷ'r Ysgol cartre Syr Thomas Parry Williams yn Rhyd ddu. Mi gyflwynodd ei ardal enedigol Dyffryn y Darostyngiad (fel byddan ni yn ei bryfocio) i gymaint o bobol ifanc wrth fynnu bod yr ysgol yn cael ei hachub a'i throi'n ganolfan aros, iddyn nhw – mi wnaeth yr union beth yn Rhandir Mwyn hefyd.

Ifan – da oedd cael dy nabod. Hwyl.

# ymprydiwch dros newid

**Ers 1984, cynhelir ympryd noddedig gan Oxfam er mwyn codi arian at ein gwaith dramor.**

Gellwch helpu mewn dwy ffordd:

* Ymunwch â'r Ympryd Genedlaethol yn ystod 2/3/4 Tachwedd. Ewch heb fwyd am 24 awr; neu rhowch y gorau i'ch hoff fwyd am ddiwrnod; neu ewch heb un pryd o fwyd. Gofynnwch i'ch ffrindiau eich noddi.
* Gellwch ddosbarthu taflenni a phosteri'r Ympryd yn eich cymunedau lleol.

** Am ffurflenni noddi, taflenni a phosteri, cysylltwch ag Eluned Nickson, Oxfam 46-48 Heol-yr-Orsaf, Llanishen, Caerdydd CF4 5LU. Ffôn: Caerdydd 757067.

# SÊR Y DINESYDD

**Eiry Palfrey**

## HYDREF 1990

### ARIES

Cymerwch ofal o'ch iechyd ar hyn o bryd, os bu anhwylder yn eich poeni'n ddiweddar, dyma'r amser i wneud rhywbeth yn ei gylch. Byddwch yn ofalus gydag offer trydanol. Rydych yn fyrbwyll iawn ar hyn o bryd – gyda'ch arian a'ch tafod, ceisiwch beidio â brifo rhywun annwyl neu mi fyddwch yn siwr o ddifaru. Cewch ganmoliaeth yn eich gwaith.

### TAURUS

Mae'n bosib y cewch chi gyfrifoldeb ychwanegol yr Hydref hwn fydd yn ymwneud â phlant mewn rhyw ffordd. Os bydd raid i chi amddiffyn eich barn ceisiwch beidio â bod yn styfnig, ac ystyriwch ochr arall y ddadl cyn gwneud penderfyniad a chythruddo rhywun mewn awdurdod. Fe all hwn fod yn gyfnod lwcus iawn yn y gwaith.

### GEMINI

Mae yna bosibilrwydd o rwyg yn eich teyrngarwch nawr rhwng eich gwaith a'ch teulu. Chi'n unig a ŵyr ble i roi'r prif bwyslais. Mae yna beryg y byddwch yn digio'ch teulu yng nghyfraith yn sgil eich penderfyniad. Peidiwch â gor-ddathlu neu gor-fwynhau neu fe allai eich iechyd ddioddef.

### CANCER

Cewch gyfle yr Hydref hwn i ddysgu eraill. Ceisiwch beidio â chael ffrae gyda rhywun agos, yn enwedig eich cymar, rydych yn sensitif iawn ar hyn o bryd. Mae hwn yn gyfnod da i wahodd cyfeillion i'ch cartref a mae'n bosib y byddwch yn cyfarfod â rhywun newydd a diddorol yn gymdeithasol a fydd o help mawr i chi yn eich gyrfa.

### LEO

Mae tuedd ynoch i fod yn fyrbwyll ar hyn o bryd. Mae'n bosib y byddwch yn dweud mwy nag y dylech a digio rhywun mewn awdurdod. Mae na beryg y byddwch yn gorwario hefyd ar rywbeth y gallech fyw hebddo'n iawn. Y cyngor gorau fyddai i aros a meddwl cyn gwneud unrhyw beth y byddwch edifar amdano. Ar y llaw arall mae hwn yn gyfnod creadigol a lwcus iawn.

### VIRGO

Mae'n eitha posib bydd angen i chi gyfaddawdu'r mis hwn – yn y gwaith, yn y cartref, yn eich bywyd personol ac yn gyfreithiol hefyd. Efallai na fyddwch yn rhy awyddus i wneud hynny, ond yn y pen draw dyna'r unig ffordd i ddatrys yr holl broblemau bach poenus a ddaw i'ch rhan yn ystod yr wythnosau nesa 'ma.



### LIBRA

Dyma'r cyfnod gorau i chi bob blwyddyn pan fydd yr haul yn eich arwydd. Dechrau pennod newydd a chyfle i baratoi ar gyfer y flwyddyn o'ch blaen. Cewch lawer o gyfrifoldebau a allai ddifetha'ch bywyd cymdeithasol a'ch gwneud yn fyr eich amynedd. Mae'n bosib y byddwch yn anghydweld gydag aelodau o'ch teulu oherwydd pwysau gwaith.

### SCORPIO

Efallai y byddwch yn teimlo'n ddigalon ddechrau'r mis, ond erbyn yn 24ain pan fydd yr Haul, Mercher, Gwener a Pluto yn symud i'ch arwydd bydd pethau'n gwella llawer, ac fe wireddir llawer o'r dyheuadau. Byddwch amyneddgar ac fe fydd y darnau yn disgyn i'w lle yn ddestlus dros ben. Mi fyddwch yn llawn syniadau gwreiddiol a chreadigol.

### SAGITTARIUS

Mi ddylai hwn fod yn gyfnod prysur a llwyddiannus iawn i chi yn y gwaith. Byddwch yn sicr o gael canmoliaeth am eich ymroddiad. Ond peidiwch â gadael i hynny fynd i'ch pen, gan fod eich cyd-weithwyr yn genfigenus ohonoch ar hyn o bryd ac yn barod iawn i weld bai yn eich agwedd.

### CAPRICORN

O'r diwedd mae pethau'n dechrau gwella yn eich bywyd, ond peidiwch ag ymlacio gormod, dydy'r problemau ddim i gyd ar ben eto, ond maen nhw'n dechrau ystwytho o'r diwedd. Rydych chi'n greadigol iawn ar hyn o bryd, felly os medrwch chi ceisiwch ganolbwyntio ar grisialu'ch syniadau ar gyfer gwaith caled maes o law.

### AQUARIUS

Mae tuedd i ormodaeth ynoch ar hyn o bryd, gor fwyta, gor yfed, gor wario a pherygl y byddwch yn debygol o ddweud mwy nag y dylech wrth aelod o'r teulu a'i ddigio, ac achosi ffrae fawr. Ceisiwch ddefnyddio'r egni mewn ffordd gadarnhaol i ehangu'ch gorwelion, trwy deithio neu ddysgu iaith neu sgil newydd.

### PISCES

Byddwch yn ofalus wrth yrru neu theithio ddechrau'r mis. Fe allai gor-yfed neu or-fwyta effeithio'n anffafriol arnoch hefyd. Fe allech gyd-weithio'n llwyddiannus iawn gyda brawd neu chwaer ar hyn o bryd. Mi fyddwch yn llawn syniadau disglaer a gwreiddiol, gan fod hwn yn gyfnod creadigol iawn i chi.

## CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

**A ninnau unwaith eto ar drothwy'r hydref mae Cangen Caerdydd o'r Gymdeithas Wyddonol yn ail-gychwyn ei chyfarfodydd misol. Er mai un o brif amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg nid oes angen cefndir gwyddonol i fedru gwerthfawrogi a dysgu oddi wrth y darlithwyr. Gobeithiwn ein bod, yn ystod y tymor, yn ymdrin â nifer o bynciau sydd o ddiddordeb cyffredinol.**

Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8 o'r gloch ac mae croeso i unrhyw yn o ddarllenwyr y DINESYDD i ymuno â'r gangen a dod i'r darlithoedd (£3 yn unig yw'r tâl aelodaeth am flwyddyn, gyda gostyngiad i fyfyrwyr, yr henoed a'r di-waith). Ceir manylion am y cyfarfodydd yng nghalender y Dinesydd a bydd y cyfarfod cyntaf nos Lun, Hydref 15 pryd y disgwyliwn Dr Neville Evans a Mr Illtyd Lewis i roi darlith ar y cyd i ni. Byddant yn ymdrin ag ymwybodaeth y cyhoedd o wyddoniaeth – "Gwybodaeth neu Anwybodaeth – oes ots!?"

Felly, beth am ymuno â ni ar Hydref 15 a thrwy weddill y tymor. Cofiwch fod croeso i bawb ymuno â'r gangen ond os hoffech gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r gymdeithas neu'r cyfarfodydd yna gellwch gysylltu â naill ai Beth Jones (ffôn: 223657) neu Rhodri Evans (ffôn: 382566).

## DARLITHIAU LLANDAF

**Bellach mae'r flwyddyn 1992 yn rhan o'n siarad bob dydd ond beth yn hollol sy'n debyg o ddigwydd yn y flwyddyn honno? Ond yn fwy pwysig fyth beth fydd yn digwydd wedyn?**

Bydd cyfle i bawb ohonom gael ein goleuo ar y pethau hyn gan Ewrocrat pennaf Cymru, Aneurin Rhys Hughes.

Fel un sydd wedi gweithio dros y blynyddoedd yng nghoridorau grym y Gymuned Ewropeaidd mae ganddo wybodaeth fanwl am y peirianwaith a ddaw i rym yn 1992.

Ceir cyfle i'w glywed yn traethu yng Nghaerdydd Nos Wener, Tachwedd 9fed, yn Ysgol Howell, Llandaf, am 7.30.

Dyma gyfraniad arall i gyfres Darlithiau Llandaf a drefnir dan nawdd Cymdeithas Cynfyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Rhaid sicrhau tocynnau ymlaen llaw – pris £4.00 sy'n cynnwys lluniaeth ysgafn – trwy gysylltu â Dilys Wynne Lloyd, rhif ffôn Caerdydd 5621254.

# DIWRNOD Menter

1 TACHWEDD

# FI 'DI'R BOS!

## RHEDEG BUSNES AM DDIWRNOD



**MARTIN EAGLESTONE 30 oed**
Byw yn y Felinheli, Gwynedd
Swyddog Cynllunio,
Adran Gynllunio, Cyngor Sir Gwynedd
Hefyd yn Swyddog Undeb

**ARWYN ROBERTS 27 oed**
Byw yng Ngherrigydrudion, Clwyd
Yn edrych ar y posibilrwydd
o gychwyn busnes

**OLWEN RICHARDS 21 oed**
Byw yn Hendygwyn ar Dâf, Dyfed.
Nyrs—blwyddyn olaf o'i hyfforddiant
Ysbyty Glan Gwili, Caerfyrddin.

Ar Dachwedd y 1af—Diwrnod Menter, bydd Martin, Olwen ac Arwyn yn cymeryd yr awenau ym musnes Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.

Chwarel lechi ydy Llechwedd, ac mae tair elfen i'r cwmnïau sydd yno—cynhyrchu llechi tô a deunydd pensaerniol, gwneud crefftau llechi o bob math, ac yn olaf atyniad twristaidd—ceudwll tanddaearol.

Bydd Martin, Olwen ac Arwyn yn dod at ei gilydd i redeg y cwmni am y dydd. Mi fydd yn dipyn o dro ar fyd i'r tri, ac yn brofiad gwahanol iawn i'w bywydau bob dydd.

Dilynwch eu hynt a'u helynt ar S4C, Nos Fercher, Hydref 31, trwy'r dydd ar Radio Cymru, Ddydd Iau Tachwedd 1af, ac eto gyda'r nos ar S4C.

## PWY 'DI'R BOS YN EICH ARDAL CHI?

Ar Dachwedd 1af, Diwrnod Menter, bydd 100 o bobl ifanc ledled Cymru yn cael y cyfle i redeg busnes lleol.

Am fanylion pellach am eich ardal chi: cysylltwch â Menter a Busnes ar (0970) 625561

BBC Radio Cymru · LLECHWEDD · S4C

Menter a Busnes

# SAFBWYNT
## DEHONGLI'R GORFFENNOL

**Maent yn dweud fod amgueddfa newydd yn agor rywle yn yr Ynysoedd Prydeinig bob bythefnos, ac o grwydro ar hyd a lled Cymru a gweld y nifer fawr o arwyddbyst brown sy'n cyfeirio'r ymwelydd i ryw atyniad neu gilydd, gellid tybio fod y wybodaeth am ein treftadaeth yn ddiogel. Gellid tybio hefyd fod y dehongliad o'r wybodaeth hynny wedi ei ddatblygu yn llawn a bod gan bawb y cyfle i werthfawrogi'r elfennau hynny sy'n ein gwneud ni yn Gymry. Mae ffermydd ieir bach yr haf a ffatrioedd gwlân,crochendai a phyllau glo,melinau blawd a gweithdai crefftwyr oll yn agored i'r ymwelwyr sy'n barod i wario arian. Ymhob treflan ceir siop grefft yn gwerthu pob math o nwyddau sy'n cynrychioli medrusrwydd ein crefftwyr llaw.Yn anffodus nid oes gan lawer o'r gwrthrychau a werthir ddim o gwbl i wneud â'n traddodiadau fel cenedl canys yn fwy aml yn pheidio estroniaid sy'n ymwneud â gwaith crefft yn eu gweithdai yng nghefn gwlad.**

O edrych ar y Cymru gyfoes, mae pethau wedi newid yn syfrdanol yn ieithyddiol ac yn ddiwylliannol ac yr ydym mewn perygl dirfawr o golli'r elfennau hynny sy'n ein gwneud yn wahanol i'r cenedloedd eraill yn yr Ynysoedd Prydeining, Ewrop a'r byd. Yn gyflym iawn mae ysbryd yr oes unwedd hon wedi ein goddiweddyd ac mae'r elfennau hynny a fu mor hanfodol bwysig yn ein bywyd dros y canrifoedd wedi eu disodli yn gyflym iawn. Yn sicr ein gwaith ni sy'n ymwneud â thraddodiadau ein cenedl yw ceisio amddiffyn a dehongli ein treftadaeth nid yn unig i estroniaid ond hefyd i'n cyd-Gymry. Wrth gwrs mae ein gwlad wedi mynd ac yn mynd trwy gyfnod o chwyldroad. Mae ein sylfeini economaidd wedi ei trawsnewid – mae'r DVLC yn Abertawe yn cyflogi mwy na holl ddiwydiant glo ein gwlad canys dim ond pum pwll glo a erys yn y de, dim ond un y gogledd. Mae ein dyfodol diwydiannol bellach i raddau helaeth yn nwylo Siapaneaid ac Almaenwyr ac mae'r diwydiant cynhenid a roddodd fodolaeth i nifer fawr o drefi a phentrefi wedi diflannu a bellach nid yw brodorion yr ardaloedd glofaol hynny mewn unrhyw gysylltiad â'r nerthoedd a'r gweithgarwch syfrdanol a roddodd fodolaeth i'w cymunedau. Er enghraifft, y diwydiant glo a ddaeth â phentrefi y Rhondda, y Garw, y Rhymni a'r Dulais i fodolaeth yn y man cyntaf, ond bellach mae'r diwydiant hwnnw wedi diflannu a dim ond y creithiau a erys. I gymryd lle diwydiant, amgueddfeydd a chanolfannau hamdden a gynigir a bellach mae Merthyr Tudful a Threfafod, Blaenafon a Chwm Dulais yn cael eu cynnig fel lleoedd i ddehongli'r llewyrch a fu. Wrth gwrs mae dehongli agweddau diwydiannol o'n hanes yn bwysig dros ben cyhyd ag y bo'r dehongli hwnnw yn onest ac yn ddilys heb geisio cuddio'r gwirionedd i greu rhyw fath o 'Disneyland Cymreig'.

Ni ellir creu unrhyw atyniad gwerth ei halen heb wybodaeth drylwyr o'r elfennau hynny a oedd mor bwysig yng ngwead cymdeithas. Yma yng Nghaerdydd mae'r datblygiadau enfawr yn ardal y dociau yn mynd i ddinistrio llawer a oedd mor bwysig yn hanes rhan unigryw o Brydain. Yma yr oedd bron hanner cant o genhedloedd y byd yn cael eu cynrychioli yn y gymuned; 'roedd gan Gaerdydd drigain mlynedd yn ôl fwy o longau wedi eu cofrestru yn y porthladd na holl lynges fasnach Prydain yn gyfangwbl yn 1990. Yma yr oedd adeiladau masnachwyr a pherchnogion llongau, eglwysi o bob math, siopau a thafarnau ond yn natblygiad Caerdydd y mae yna berygl mawr i holl elfennau llewyrch y gorffennol gael eu distrywio ac ni fydd ein dinas yn wahanol i Hull neu Baltimore neu Vancouver. Yn sicr yn natblygiad y ddinas mae angen priodi y gorffennol a'r dyfodol i greu dinas sy'n wahanol i eraill. Mae hyn wedi ei wneud yn llwyddiannus iawn mewn dinasoedd fel Boston lle mae'r newydd yn eistedd yn gyfforddus gyda'r hen a lle mae treftadaeth New England wedi ei ddehongli yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Dyna'r sialens sy'n wynebu dinasyddion y ddinas hon.

**J Geraint Jenkins**

**DYMUNIADAU GORAU**

Dymunwn yn dda i Betsan Powys – bu'n bur wael yn ddiweddar ond y mae ar wella. Diolch i bawb fu mor ofalus ohoni, ar ran ei theulu a ninnau ddarllenwyr y Dinesydd sy'n mwynhau gwylio ei chamre.

## Croeso i'r Auberge

Mae 'na groeso Ffrengig yn yr 'Auberge Des Pres de la Vezere' yn ne-orllewin Ffrainc ond yno hefyd fe gewch chi groeso cynnes, Cymreig gan Sara Debrach (Bassett gynt). Bu Sara a'i gŵr, Francis, yn cadw'r gwesty ym mhentre Sainte-Viance, 5½ milltir o Brive ers mis Ebrill ac yn ystod yr haf fe gafodd dau deithiwr sychedig o Gaerdydd goffi a clamp o groeso dan gysgod castanwyden fawr o flaen yr Auberge.

Magwyd Sara yng Nghaerdydd ac fel cyn-ddisgybl o Ysgol Rhydfelen mae'n siŵr y byddai Madame Gwyneth Jeffreys yn hynod o falch o glywed y Ffrangeg yn llifo mor ystwyth o'i genau wrth iddi gyfieithu'r sgwrs i'w gŵr. Pob hwyl i'r ddau ac i'w meibion bychain Sebastian ac Ioan.

# HELYNT Y GARTH

Ddydd Mawrth, Medi 11 agorodd – a chaeodd – Ymchwiliad Cyhoeddus yn Neuadd y Pentref, Gwaelod-y-garth. Yno roedd cwmni Steetley i fod i apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Morgannwg Ganol i wrthod caniatâd iddynt ymestyn eu chwarel anferth ar y Garth Bach. Ond ar y diwrnod, yn dilyn cyfres o gyfarfodydd dirgel gan Gyngor Sir Morgannwg Ganol, gofynnodd cynrychiolwayr y Cwmni a chynrychiolwyr Morgannwg Ganol am ohirio'r Ymchwiliad. Y rheswm? Mae swyddogion y Cwmni wedi cytuno gyda swyddogion y Cyngor Sir i lunio cais newydd i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref. Bydd y cais yn cael "sylw ffafriol" gan y Cyngor. Datgelwyd manylion y cynnig arfaethedig ar ddiwrnod yr apêl, ac yn wir, mae'n ymddangos yn fwy cymedrol na'r cais a oedd gerbron.

Mae trigolion y pentrefi cyfagos, a fu'n brwydro yn erbyn cynlluniau dinistriol y chwarel ers dwy flynedd a hanner bellach, yn croesawu'r cynnig newydd. Ni fydd yn cael dim effaith, yn ôl y Cwmni, ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sef y coedwigoedd ffawydd o gwmpas y bryn. Ond fe fydd yn peryglu'r gweithfeydd haearn hynafol yn y bryn ei hun.

Cawn hanes cyflawn y cais newydd yn y rhifyn nesaf.

Os hoffech fynd am dro drwy'r gweithfeydd hyn (drwy gyfrwng sleidiau!) cysylltwch ag Elin Jones, ffôn Caerdydd 811213 i wneud trefniadau.

# CYFEIRLYFR CYFIEITHWYR



**Ar y 3ydd o Fedi lansiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei Gyfeirlyfr Cyfieithwyr newydd sbon yn rhestru dros gant o unigolion ac asiantaethau sy'n cynnig gwasanaethau cyfieithu Saesneg-Cymraeg a Chymraeg-Saesneg yng Nghymru.**

Ym Mhencadlys Cyngor Sir De Morgannwg, cyflwynodd John Elfed Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gopïau cyntaf yr Cyfeirlyfr i'r Cynghorydd William Bowen, Cadeirydd Cyngor Sir De Morgannwg a John Lord, Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp Brent Walker ccc, y cwmni sy'n datblygu Canolfan Fasnach y Byd, Caerdydd.

Dywedodd John Elfed Jones, "Mae cyhoeddi'r Cyfeirlyfr hwn yn achlysur arwyddocaol yn natblygiad yr iaith Gymraeg. Bydd yn awr yn llawer haws i gwmnïau a chyrff cyhoeddus gysylltu â chyfieithwyr proffesiynol cymwys yn eu hardal ac o ganlyniad, dylem weld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg".

Mae'r Cyfeirlyfr yn un hawdd i'w ddefnyddio, yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i wneud defnydd o wasanaethau cyfieithu, yn rhoi restri cynhwysfawr rhanbarthol ac yn ôl y wyddor o gyfieithwyr, yn nodi sut i gysylltu â hwy yn uniongyrchol ac yn cynnwys manylion am eu pynciau arbenigol a'r offer a ddefnyddiant, megis prosesyddion geiriau a pheiriannau ffacs.

Gobaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw y bydd copi o'r Cyfeirlyfr ym mhob man gwaith yng Nghymru a dosberthir dros 2,000 o gopïau am ddim i gyrff cyhoeddus a chwmnïau ledled y wlad.

# TRWY'R POST

DINESYDD

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF.

ENW ..........

CYFEIRIAD ..........

COD POST ..........

Amgaeaf siec am £4.00 i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# /M/E/R/C/H/E/D/ /Y/ /W/A/W/R/

**Mae nos Lun yn gallu bod yn noson braidd yn dawel – y penwythnos prysur drosodd a'r wythnos heb gasglu stêm – noson i chi ymlacio; neu efallai mai noson braidd yn unig yw hi i chi, gyda dim llawer o gwmni ar y gorwel hyd y penwythnos nesa'. Felly y naill ffordd neu'r llall mae'n noson hwylus ar gyfer cyfarfodydd Merched y Wawr.**

Efallai 'i bod hi'n syndod i rai o ddarllenwyr Y Dinesydd gael ar ddeall fod yna gangen o'r mudiad yn y ddinas! Oes mae 'na un, ac y mae gennym raglen amrywiol ar gyfer y tymor. Ar Hydref 8 bydd Gwynfor Owen yn sôn am, ac yn dangos i ni Ryfeddod y Pren, ac efallai y bydd cyfle i ni brynu 'rhyfeddod' neu ddau o waith Mr Owen. Cofiwch fod Nadolig yn nesau!

Yn Nhachwedd daw'r prif Lenor Rae Evans i Gwmnïa gyda ni, ac ym Mis Rhagfyr bydd Dr Dewi Lewis sy'n Seiciatrydd ac Organydd (neu'n Organydd a Seiciatrydd erbyn hyn) yn rhoi i ni noson o Gerddoriaeth y Nadolig.

A dyna hi hyd ddiwedd 1990 – cadwch eich llygaid ar Y Calendar am gyfarfodydd 1991.

Dewch i Festri (gynnes) Capel Minny Street erbyn 7.30 ar yr ail nos Lun o'r mis. O ie, mae 'na 'baned hefyd.

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch

Nos Lun y Cyntaf o Hydref 1990! Noson Fawr yma yn Ninas Powys a'r Gymdeithas Gymraeg yn dathlu penblwydd Chwarter Canrif. Y gŵr gwadd fydd Griff Thomas, un o sylfaenwyr y Gymdeithas nôl yn y chwedegau ac fe ddisgwylir rhyw gant o aelodau a chyn aelodau i ddod ynghyd yn Neuadd Sant Pedr i Ginio'r Dathlu. Braf o beth yn cofnodi llwyddiant y Gymdeithas Gymraeg yma yn y pentref trwy ddycnwch a dyfal barhad cnewyllyn cryno o Gymry ar hyd y blynyddoedd. Allan o'r hedyn bach cyntaf yma o Gymreictod tyfodd llu o weithgareddau a sefydliadau a enillodd barch ac edmygedd trigolion y fro tuag at y Cymry Cymraeg. Pob bendith i'r sawl fydd yn cymryd yr awenau yn y chwarter canrif nesaf.

**OH**

# DYDDIADUR GWRAIG Y GWEINIDOG

Mis Awst – mis y gwyliau i weinidogion. Felly dyma'r dyddiadurwr yn comisiynu'r gwaith imi. "Rhywbeth i'th gadw allan o drwbl tra rwyf fi yn yr Undeb," meddai cyn cychwyn am ardal Y Frenni Fawr yn yr hen Sir Benfro.

## DYDD MERCHER, 1 AWST . . .

Y wawr yn torri fel roedd Gwilym a fi yn cyrraedd maes awyr Gatwick a'r lle yn paratoi am barti i ddathlu ei jiwbili diamwnt a channoedd o falwns a rhubannau glas. Ond croesawd Megan ac Andrew yn ôl o Sambia oedd y rheswm inni godi newydd i relyw dinasyddion Caerdydd fynd i'w gwelyau. Ar ôl y gwres a'r sychder yn Sambia y ddau wedi gobeithio ei bod yn bwrw glaw yng Nghymru; ond gwres poethach a mwy llethol na Sambia oedd yn eu disgwyl.

Wedi treulio'r prynhawn yn cyfnewid newyddion, Gwilym a fi yn mynd i Gwmaman i ddathlu penblwydd dwy o'r aelodau yn 90 oed – Lily Olwen Williams a Kate Pritchard. Anodd credu bod y ddwy yma yn 30 oed cyn i'r awyren gyntaf godi na glanio yn Gatwick. Cyrraedd adref wedi diwrnod o 21 awr, ac yn falch na fyddai rhaid codi am un o'r gloch bore yfory.

## DYDD GWENER, 10 AWST . . .

Diwrnod arall ar faes yr Eisteddfod, a diwrnod y feirniadaeth ar yr arddangosfa wyddoniaeth. Cynulliad bach o athrawon a disgyblion Ysgol Gyfun y Cymer, Y Rhondda yn barod i geisio argyhoeddi'r beirniaid mai gennym ni oedd yr arddangosfa orau. Yn ystod yr wythnos roedd nifer o Eisteddfodwyr wedi cael eu llun wedi ei dynnu a'i argraffu trwy gymorth y cyfrifiadur, yn cynnwys Mr Eisteddfod ei hun – Mr Emyr Jenkins – a Llywydd y Llys, yr Athro Derec Llwyd Morgan. Hefyd roedd nifer o blant wedi defnyddio ein data bas gweledol CommunITel (system tebyg i Oracle a Ceefax) i ateb ychydig o gwestiynau, ond anfodlon iawn oedd yr Eisteddfodwyr hŷn i roi cynnig arni – y cyfrifiadur yn codi ofn arnynt mae'n debyg. Tybed a fyddai'r beirniaid yn rhoi cynnig arni? Gwrthod wnaethant ond cânt faddeuant gan iddynt roi y wobr gyntaf a siec hael inni. Drwy gydol yr wythnos bu'r Babell Wyddoniaeth yn llawn gweithgareddau amrywiol a diddorol fel y Babell Lên a Theatr Fach y Maes, ond eto ychydig iawn o sylw a roddwyd iddi gan y cyfryngau a'r wasg. Pam tybed?

## DYDD SUL, 19 AWST . . .

Deffro yn Inverness, Yr Alban a mynd am dro ar hyd lan afon Ness cyn oedfa'r bore. Llawer o ynysoedd bach i'w cael yng nghanol yr afon a nifer o bontydd yn eu cydgysylltu â'r ddwy lan. Ar un ynys roedd eliffantod a hipopotami concrid yn syllu arnom o ganol y coed. A oedd y rhain i fod i'n hatgoffa am wartheg concrid Milton Keynes neu jyngls yr Affrig?

Cael trafferth i gael sêt yn y capel 5 munud cyn dechrau'r oedfa! A hyfryd hefyd oedd sylwi mai teuluoedd ifanc ac nid gwragedd gweddw ar eu pensiwn oedd mwyafrif y gynulleidfa. Yr oedfa yn un hir – bron i ddwy awr – ond yn llawn llawenydd a bywyd.

Yn yr hwyr ffonio adref a chlywed fod gennym nai bach newydd – Geraint Emyr – er nad oedd mor fach a hynny, 10 pwys a 5 owns. Tybed beth mae Owain yn meddwl o'i frawd bach?

**Eirian Davies Jones**

# MAMIAITH YN GADAEL CARTREF

Bydd tymor cynhyrfus o theatr, fforymau trafod a digwyddiadau amser cinio yn cychwyn yn St Stephens Theatre Space, Caerdydd ar Hydref 24ain 1990. Bydd "AUTUMN ALTERNATIVE 1990" yn codi DWYIEITHRWYDD allan o'i gyd-destun Cymreig, a'i gyflwyno mewn cyd-destun Ewropeaidd ehangach.

Mae MAMIAITH yn gyd-gynhyrchiad rhwng MOVING BEING, DALIER SYLW a Y CWMNI. Mae'r 3 drama a berfformir yn gyfieithiadau: KASPAR, gan Peter Handke, yn gyfieithiad Saesneg o'r Almaeneg (Hydref 24ain – Tachwedd 3ydd); LARGO DESOLATO, gan Vaclav Havel, yn gyfieithiad Cymraeg o'r Siecoslofaciaidd (Tachwedd 7fed-17eg); a THE MYTH OF MICHAEL RODERICK yn gyfieithiad Saesneg o'r ddrama Gymraeg "Adar Heb Adenydd" (Tachwedd 21ain-Rhagfyr 1af).

Mae cynhyrchwyr MAMIAITH yn argyhoeddedig y bydd y dadleuon a'r cwestiynau a godir gan y tymor o gyfieithiadau yn ysgogi trafodaethau ynglŷn â natur iaith ei hunan, a phwrpas a pharadocs iaith mewn gwlad ddwyieithog. Cynhelir cyfres o fforymau trafod yn gysylltiedig â MAMIAITH yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Bangor, er mwyn trafod y dadleuon hyn.

Ac, fel sy'n arferol ar fwydlen St Stephens ar bnawniau Iau a Gwener, ceir nifer o sesiynau amser cinio o gerddoriaeth a chaneuon, a'r tro hwn gyda sawr MAMIAITH arnynt. Cofiwch ddod i'w blasu!

# EUOG: DI-EUOG

*gan Maldwyn Parry*

**Wedi saib fer ers ein cynhyrchiad diwethaf, *Cyw Haul*, bydd Hwyl a Fflag yn cyflwyno Drama Newydd, *EUOG: DI-EUOG* gan Maldwyn Parry, yn yr Hydref.**

Stori afaelgar, yn defnyddio iaith bob dydd a chymeriadau cig a gwaed, a geir yn *Euog: Di-Euog*. Rhywle yng Ngolgedd Cymru yn ystod y 50'au cyhuddir dynes ganol oed boblogaidd ac uchel ei pharch yn y gymdeithas o wenwyno ei hail wr. Yn ystod archwiliadau'r heddlu i'r marwolaeth, a'r achos llys a'u canlyn, cawn wybod i'w gwr cyntaf hefyd farw mewn amgylchiadau amheus. Yw hi'n Euog neu'n Ddi-Euog ac a oes cysylltiad rhwng y marwolaethau?

Yn ogystal â phortread o gymeriad hynod a sefyllfa unigryw ceir yma hefyd elfennau o'r 'Whodunnit' ac o ddrama seicolegol fydd yn ymdrin ag ymateb y Wasg a'r gyfraith i'r drosedd honedig.

Casglwyd cast cryf iawn ynghyd, yn wynebau adnabyddus a llai cyfarwydd – Iola Gregory (yn rhan y prif gymeriad); Arwel Gruffydd; Wyn Bowen Harries; Morfudd Hughes; Gareth Morris a Nia Williams – dan gyfarwyddyd Gwen Ellis.

Clerc Ynadon Môn, a brodor o'r Ynys, yw Maldwyn Parry. Dyma'r tro cyntaf i gwmni theatr proffesiynol Gomisiynu a theithio drama ganddo. Fodd bynnag, ers 1987 – pan berfformiwyd yn o'i ddramâu yng Ngwyl cyntaf *Codi'r Hwyl* – bu cysylltiad agos rhwng yr awdur a'r Cwmni. Cafwyd ymateb cadarnhaol i *Euog: Di-Euog* yn ystod darlleniad cyhoeddus ohoni (dan y teitl *Miriam*) yng Ngwyl *Codi'r Hwyl III* yn gynharach eleni. Fel gyda'r gorau o'i waith, sydd yn cynnwys dramâu teledu a radio, sbardunwyd dawn a ddychymyg theatrig Maldwyn Parry gan ei brofiad ym myd y gyfraith.

Perfformir *Euog: Di-Euog* mewn theatrau led led y wlad rhwng y 3ydd a'r 27ain o Hydref eleni. Dyma'r unig ddrama Gymraeg fydd yn ymweld â theatrau Cymru yn y cyfnod hwn.

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN TACHWEDD/RHAGFYR**
**19 – 10 – 90**

# radio cymru rhaglenni'r hydref a'r gaeaf

**"Rhywbeth at ddant pawb – y gwasanaeth cyflawn i Gymry – dyna nod Radio Cymru" dyna dywedodd Lyn Jones, Golygydd Radio Cymru wrth gyflwyno gwybodaeth am raglenni'r Hydref a'r Gaeaf. "Ac unwaith eto mae yna raglenni amrywiol a chyffrous ar y gweill. Fe roir lle amlwg i Ddrama a chyfresi o gomediau; mae llawer cyfres boblogaidd yn dod yn ôl, a darlledwyr profiadol, poblogaidd fel Gwyn Erfyl, Caryl Parry Jones ac Elinor Jones yn cychwyn ar gyfresi newydd.**

Flwyddyn yn ôl, fe gafwyd newid sylfaenol yn y patrwm darlledu pan lansiwyd HEDDIW, y papur dyddiol boreuol gyda Vaughan Hughes a Russel Isaac. Cafwyd ymateb brwd i'r newid fel y gellid disgwyl, nifer yn croesawu'r pwyslais ar newyddion a llawer yn colli naws 'gatrefol' Helo Bobol.

Ond erbyn hyn mae HEDDIW yn ennill ei blwy a'i ffurf wedi ymsefydlu. Bydd Russell yn gadael y rhaglen yn yr Hydref a Sian Pari Huws yn cymryd ei le. Mae hi eisoes wedi gwneud ei hol ar y rhaglen gan mai hi sydd wedi bod yn cymryd lle y ddau gyflwynydd pan oedden nhw ar eu gwyliau.

Yn dilyn HEDDIW, mae'r pwyslais yn bennaf ar gerddoriaeth gyda'r cyflwynwyr poblogaidd Aled Sam, Margaret Williams, Ray Gravel, ac Alun Williams. Bydd dilynwyr Sam yn falch iawn i glywed mae ef fydd yn agor a chau'r wythnos, ar fore Llun a bore Gwener!

Mae Maldwyn Thomas wedi tyfu yn un o'n darlledwyr mwyaf dadleuol a gwrando brwd ar LLUNIAU LLIW. Gallwn fentro y bydd Maldwyn mor ffraeth a bachog ag arfer ar fore Llun gyda'i ddewis o westeion lliwgar, bywiog. Pynciau llosg a syniadau sy'n denu Maldwyn, ond gwraig y bobl yw Beti George a does neb gwell na hi i ddenu cyfrinachau oddi wrth ei gwesteion. Mae *Beti a'i Phobol* yn un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ac ychydig iawn, iawn o bobol sy'n gwrthod y gwahoddiad i sgwrsio gyda Beti a dewis eu hoff recordiau.

Pwy all fforddio peidio ag ymddiddori mewn addysg y dyddiau hyn? Bydd *Gorau Arf* yn siŵr o gadw llygad barcud ar yr holl ddatblygiadau, y problemau a'r newyddion diweddara, gyda Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni Addysg BBC Cymru wrth y llyw unwaith eto.

Ddwy flynedd yn ôl fe gafodd Elinor Jones ei sioe sgwrsio gyntaf ar y radio a'i mwynhau'n enfawr, ac fe brofodd mor ddeheuig ag Radio ag ar y teledu. Mae'n siwr y caiff hithau hwyl ar ei chyfres newydd eleni.

Ymhlith cyfresi poblogaidd arall sy'n ail ddechrau yn yr Hydref mae Ym Mhen Draw'r Byd, Bwrw Golwg, Cadwyn Cylch, Alaw ac Anian, Atig Taid a Nain, Mae Gen i Hawl ac Yn ei Elfen.

### THEATR YR AWYR

Mae Radio Cymru yn ymfalchio yn ei record ym myd y ddrama yng Nghymru, yn comisiynu gweithiau newydd, ynghyd â chynhyrchu dramâu clasurol a chyfieithiadau o ieithoedd Ewropeaidd, ac eleni eto mae'n darparu arlwy amrywiol.

I agor y tymor fe geir pedair drama arswyd gan gynnwys un o waith y bardd Gwyn Thomas, *Lleuad yn Olau* ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, dramâu hanner awr yn cynnwys *Y Dienyddiwr*, gan Fernanco Arrabel (cyfieithiad Harri Pritchard-Jones), *Mae Tri yn Ormod* gan G R Williams a *Dau Ddiwrnod* gan Aled Jones. Cyfres newydd sbon hefyd gan Michael Davies o Abertawe, *Rhyfelgan*, yn seiliedig ar Streic y Glowyr, 1984-85.

Ond uchafbwynt y rhaglen ddrama, mae'n siwr, fydd addasiad Gwenlyn Parry o nofel arobrin T Glynne Davies, MARGED.

Fe ddaw cyfres gomedi newydd hefyd gan Eirug Wyn, *Jones a Jones* sy'n dilyn hynt a helynt busnes bach argraffu, a chyfres arall yn dilyn hynt a helynt creadigaethau Glyn Ashton, *Tipyn o Annwyd* a *Hwn a Hon a'r Llall*.

Cawn gyfle hefyd i ail-fwynhau detholiad o *Chwedlau Joggers*, a rhyfeddu unwaith eto at ddawn anhygoel y diweddar Gari Williams.

### CYFRES GWYN ERFYL

Mae Gwyn Erfyl wedi holi a theithio ledled Cymru a'r byd ar radio a theledu ond dyma'r tro cynta iddo deithio o amgylch llyfrgelloedd, a chyfuno ei allu i fynd 'dan yr wyneb' gyda'i ddiddordeb yn y gair ysgrifenedig. Nid mynd o amgylch llyfrgelloedd cyhoeddus a wna yn *Gair neu Ddau*, ond gwahodd ei hun i lyfrgell bersonol nifer o bersonau, a rhannu eu hoffter arbennig nhw o rai o'r cyfrolau yn eu meddiant. Caiff rannu brwdfrydedd pobl fel Tecwyn Lloyd, Myrddin ap Dafydd, Martin Eckley, Dan Puw, William Owen Roberts, Hazel Davies, Gareth Price a Dyddgu Owen. Daw o hyd i ddigon o bethau go annisgwyl, ambell gyfrol na wyddai am ei bodolaeth, ambell lythyr a drysorir ac ambell lyfr lloffion. Gyda chroesdoriad bwriadol o ran cefndir a chwaeth, gwledig a threfol fe geir arlwy amrywiol ac anghyffredin. Gobaith Gwyn Erfyl yw y bydd y gyfres yn hybu pobl i gysylltu ag e os oes unrhyw beth ysgrifenedig diddorol yn eu meddiant a mynd ati i baratoi cyfres arall.

### YR IAITH AR DAITH

Does dim byd yn plesio cynhyrchwyr Radio Cymru yn fwy na gadael y stiwdios ym Mangor, Abertawe a Chaerdydd a mynd ar y ffordd – yr iaith ar daith! Mae'n braf medru recordio rhaglenni ar hyd a lled y wlad o flaen cynulleidfa fyw, ac eleni bydd rhaglenni fel y Talwrn, Garddio a Byd Natur yn ymweld â chymdeithasau o bob math. Bydd cyfresi newydd sbon hefyd yn cael eu recordio gyda chynulleidfa.

Mae LLEISIAU yn rhoi cyfle i chwech o ddiddanwyr i gyflwyno SIOE UN DYN mewn lleoedd fel Clwb Peldroed Penrhyncoch a Gwesty'r Emlyn yn Nhan y Groes, Aberporth.

Brawd a chwaer o'r cylch fydd yng Ngwesty'r Emlyn. Mae'n siwr y bydd rhaglen y ddau yn hollol wahanol ond gallwch fentro y bydd Delyth Wyn, sydd i'w gweld bob nos ar Bobol y Cwm, a Brychan Llyr o'r grwp Jess yr yn mor boblogaidd gyda'r gynulleidfa. Fe gawn hefyd fwynhau perfformiadau, Linda Healy, Tudur Morgan, Catrin Rhys, (y ffolodd gymaint arni gydag arwyddgan "Tydi Bywyd yn Boen"), a Geraint Cynan, (a gafodd gymaint o ganmoliaeth fel cyfansoddwr Draw Dros y Don yn Eisteddfod Cwm Rhymni).

Mae pawb yn dwli ar gwisiau, wrth eu bodd yn profi gymaint mwy maen nhw'n wybod na'r panelwyr efallai, ac eleni bydd Radio Cymru, yn teithio tafarnau Cymru gyda chwis llawn hwyl, *Rownd Pwy?* Y Cwis Feistr yw Emyr Davies.

Nid holi cwestiwn ond codi cwestiwn yw bwriad cyfres arall sy'n cael ei recordio ar hyd a lled y wlad. HYN A GREDAF yw teitl y gyfres, a bydd Tom Evans yn seiadu gyda gwahanol grwpiau ac yn gwyntyllu pynciau crefyddol, moesol a chymdeithasegol.

A mynd at y bobl yw bwriad y gyfres TEITHIAU CERDDED. Mae yna ddiddordeb cynyddol y dyddiau hyn mewn trefnu teithiau cerdded ymhob cwr o'r wlad, ac adlewyrchu'r diddordeb yma yw nod y gyfres. Byddwn yn ymuno â chriwiau fel Cymdeithas Edward Llwyd a Chymdeithas y Cerddwyr ar yr amrywiol deithiau sydd wedi'u trefnu ganddynt ledled Cymru.

### DARLITHOEDD

Fe fu Radio Cymru ar un cyfnod yn

mynychu cyrsiau a chynadleddau'n rheolaidd er mwyn recordio darlithoedd i'w darlledu ar gyfer cynulleidfa ehangach. Ac mae'n siwr y bydd yna groeso i'r gyfres o ddarlithoedd fydd yn cael ey darlledu yn yr Hydref. Yn ystod y misoedd diwetha cynhaliwyd cyrsiau a chynadleddau mewn canolfanau fel Gregynog a Phlas Tan y Bwlch, ac fe recordiwyd llawer o'r siaradwyr, ynghyd â nifer o ddarlithwyr Eisteddfod Cwm Rhymni. Fe fydd cyfle i fwynhau nifer o'r rhain yn ystod yr Hydref gan gynnwys Marian Eames (Draw Dros y Don); Tudur Jones (Breuddwyd y Wladfa); Bruce Griffiths (Bydoedd Perffaith y Dychymyg); Meredydd Evans, (*Canu Jim Cro*); Gwynedd Pierce (Dan y Bargod); Dyfnallt Morgan (Y Wlad sy Well); Elfyn Pritchard (Cyfle Mawr y Gymraeg) a Dewi Watkin Powell (Cymru a'r Byd).

"Rwy'n hyderus," meddai Lyn Jones, "y bydd y cyfresi newydd yn denu cynulleidfa fawr, ac y bydd croeso mawr i arlwy yr Hydref a'r Gaeaf. Byddwn yn parhau gyda'n darpariaeth i'r ifanc yn *Hwyrach*, sy'n profi'n boblogaidd iawn, mae yna ddigon o hwyl ar fore Sadwrn, a bydd ein rhaglenni chwaraeon mor fywiog a llawn ag erioed."

Mae'r rhaglenni newydd yn cychwyn dydd Sadwrn 29 Medi 1990.

# Nant Lleucu



**Y Plant hyn yw disgyblion Ysgol Feithrin Gymraeg Nant Lleucu, Penylan, Caerdydd, wrthi'n mwynhau eu hunain yr haf hwn ym Mharc y Felin, Penylan gyda'u hathrawes Sian Thomas a'i dwy gynorthwywraig hithau Kath Goding ac Angharad Ellis.**

Mae'r ysgol, er taw blwyddyn un unig sydd ers ei sefydlu, wedi hen ymgartrefu yng Nghlwb Bowls, Heol Marlborough a'r nant sy'n rhedeg y tu ôl i'r Clwb a roddodd iddi ei henw. Bu'r flwyddyn gyntaf yn un lwyddiannus dros ben a hynny'n bennaf diolch i ymdrechion diflino y rhieni i godi arian i'r ysgol. Ar ddechrau'r fenter llynedd dyrnaid yn unig o famau a phlant ddaeth at ei gilydd a chynnal taith gerdded noddedig o gwmpas Llyn Parc y Rhath ond erbyn diwedd y flwyddyn adlewyrchwyd twf yr ysgol pan gynhaliwyd Ffair haf yn y Rhath.

Ac mae'r cynnydd yn parhau. Rydym yn y broses o ail-gofrestru'r ysgol i dderbyn hyd at bump ar hugain o blant. Bydd yr ysgol o fis Medi ymlaen ar agor bum bore ac un prynhawn yr wythnos – digon o waith i Sian, Kath ac Angharad felly! Ac ymhlith y gweithgareddau codi arian ar gyfer yr ail flwyddyn mae Noson Lawen yng nghwmni'r Hennessys wedi ei threfnu ar gyfer Nos Wener, Hydref y 12ed yng Nghanolfan Hamdden y Star, Sblott.

Ar brynhawn Llun yn y Clwb Bowls, fe gynhelir y Cylch Mam a'i Phlentyn sy'n gysylltiedig â'r Ysgol Feithrin – cyfle gwych i ddarpar disgyblion a'u rhieni ddod i 'nabod ei gilydd.

Cyn belled ag y bo'r disgyblion presennol a'r darpar ddisgyblion yn y cwestiwn mae'r sefyllfa'n iach dros ben ond mae 'na frwydr arall yn ein haros ni drigolion Penylan, Y Rhath, Cathays a Sblot – sef i ble fydd y plant hŷn yn ysgol Nant Lleucu yn mynd pan ddaw mis Medi 1991. Mae'r siarad eisoes wedi dechrau am ble y sefydlir seithfed ysgol Gymraeg Caerdydd ac rydym ni'n teimlo'n gryf iawn taw yn yr ardal hon y dylid sefydlu'r ysgol honno. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Gymuned y Rhath, Nos fawrth, Hydref 16eg ac erfyniwn yn daer ar unrhywun a fyddai'n dymuno gweld yr Ysgol Gymraeg nesaf yn dod i'r rhan hon o'r ddinas i fynychu'r cyfarfod hwn.

Mae nifer o ffactorau yn cyfiawnhau yr alwad a hoffen ni feddwl fod twf Ysgol Nant Lleucu ym mlwyddyn gyntaf ei bodolaeth yn un o'r ffactorau hynny.

Os am ragor o wybodaeth am weithgareddau'r Ysgol, a fyddech chi garediced â chysylltu â: Eira Milton Jones, 66 Stryd Gelligaer, Cathays, Caerdydd. Rhif ffôn 221243.


CRIW BYW

NÔL AR Y SGRÎN!

≈ MC ≈

Nos Fawrth Hydref 16eg am 7.30pm

≈≈≈

FIDEO 9

Nos Iau Hydref 18fed am 9.25pm

BEIDDIWCH CHI'U COLLI NHW?

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# I'R WASG

**Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi prynu oerwr gwin mawr o bren mahogani ac ormolu, a gafodd ei gynllunio gan y pensaer Robert Adam (1728-1792) ar gyfer yr Ystafell Fwyta yng nghartref Syr Watkin Williams-Wynn, y noddwr enwog, yn Llundain.**

Safai'n wreiddiol yn yr Ystafell Fwyta yn 20 Sgwâr St James, cartref Syr Watkin yn Llundain, o dan fwrdd ymyl gyda phâr o yrnau o bobtu ar goesau. Cafodd yr union fwrdd a'r yrnau eu prynu gan yr Amgueddfa ym 1949, ac erbyn hyn, mae'r oerwr gwin wedi ei ddychwelyd i'w fan gwreiddiol.


Mae'r oerwr gwin yn 86cm o hyd a 47cm o uchder, a chafodd ei werthu ar ocsiwn yn Christies ym mis Tachwedd y llynedd gan Ymddiriedolwyr setliad Willliams-Wynn ym 1987. Oedwyd ei allforio er mwyn i amgueddfa yn y Deyrnas Gyfunol gael cyfle i gynnig y pris o £56,856 a chafodd ei brynu gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru gyda chymorth grant o £5,000 gan y Gronfa Genedlaethol Casgliadau Celf a £5,000 arall gan y Pilgrim Trust.

Mae hon yn enghraifft wych o waith saer y 18fed ganrif o bren mahogani solet ac wedi eu wynebu gyda lenin o blwm. Seiliwyd yr oerwr gwin ar batrwm arch gladdu Rufeinig. Arno mae ffliwtiau wedi eu cerfio yn tarddu o blât ormolu crwn, ac mae wedi ei fwrw a'i addurno â'r eryr Ymerodol – mae'r eryr yn rhan o arfbais y teulu Williams-Wynn.

Cartref Syr Watkin Williams-Wynn yn Llundain, a godwyd rhwng 1772 a 1774, yw'r mwyaf moethus o dai trefol Adam sydd wedi goroesi, ac y mae addurniadau pensaerniol y prif ystafelloedd yn ddi-ail. Yn ogystal â thu mewn yr Ystafell Fwyta, cynlluniodd Adam hefyd y prif ddarnau dodrefn a set o lestri cinio arian. Ymhlith yr eitemau hynny roedd y bwrdd ymyl, y pâr yrnau a'r oerwr gwin sydd i'w gweld nawr yn Oriel 4 ym mhrif adeilad Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, a phâr o ganwyllbrennau sydd yn Amgueddfa Victoria ac Albert.

Defnyddiodd Adam y cyfuniad o fwrdd ymyl, yrnau ac oerwr gwin hefyd fel prif uned addurnol yr Ystafell Fwyta yn Kenwood, sef cartref yr Arglwydd Mansfield yn Hampstead. Gwnaed y rheiny gan Sefferin Nelson, a gerfiodd y bedyddfaen a roddwyd gan Syr Watkin Williams-Wyn i Eglwys Rhiwabon, a hwyrach ei fod yn gyfrifol hefyd am y grŵp tebyg iawn o Sgwâr St James.

Yr oedd Syr Watkin Williams-Wynn yn un o brif noddwyr y celfyddydau yng Nghymru. Casglai luniau gan yr hen feistri a hen bethau. Comisiynodd waith gan Richard Wilson, Paul Sandby a Syr Joshua Reynolds, trefnai gyngherddau ac adeiladodd theatr breifat yn Wynnstay, cartref ei deulu yn Rhiwabon, Clwyd. Mae ei bortread ar y Daith Fawr gan Pompeo Batoni, prif bortreadydd Rhufain yn ei ddydd, i'w weld yn Oriel 4 ynghyd a set doile o gilt arian, dau ddarn o blât arian wedi eu cynllunio iddo gan Robert Adam a'r grŵp o ddodrefn sy'n awr wedi eu gosod ynghyd eto ar ôl canrif ar wahân.



# CYNHADLEDD UCHELGEISIOL

**Am y tro cyntaf erioed gwahoddir pob aelod o Blaid Cymru a Chymry's Brifddinas a'r cylch i fynychu'r Gynhadledd fwyaf uchelgeisiol yn ei hanes.**

Agorir 64ain Cynhadledd y Blaid yng nghanolfan Dewi Sant, Caerdydd, brynhawn dydd Iau 25 Hydref – yn un o neuaddau fwyaf ysblennydd Cymru.

Pinaclau'r Gynhadledd dridiau fydd trafodaeth ar hunan-lywodraeth i Gymru ac araith y llywydd – ac mae rhaglen gyflawn o weithgareddau cymdeithasol a chyfarfodydd ymylol yn ogystal.

"Mae lle yn Neuadd Dewi Sant i aelodau'r Blaid fynychu pob sesiwn o'r Gynhadledd", meddai ei hysgrifennydd cyffredinol, Dafydd Williams.

"Yr ydym yn awyddus iawn i bob cangen anfon tîm llawn o sylwedyddion, yn ogystal â'i chynrychiolwyr", meddai.

Un atyniad newydd yn y Gynhadledd ar nos Wener fydd rifiw Cymraeg a gynhyrchir gan Dafydd Iwan, is-lywydd y Blaid a chyfarwyddwr cwmni Sain.

Eisoes mae pleidwyr Cwm Rhymni (Dr Colin Palfrey, a'r cynghorwyr Phil Bevan, John Taylor a Lindsay Wittle) wedi cynhyrchu nifer o rifiws tra llwyddiannus yn Saesneg – ac eleni cynhyrchwyd tâp o ganeuon "Old Kids Off Their Block" gan gwmni Sain.

Bydd sioe Cwm Rhymni ar y llwyfan unwaith eto yn y Gynhadledd eleni – ar nos Sadwrn mewn sioe gyda'r grŵp poblogaidd The Hennessys.

Yn y Gynhadledd ei hun, rhoir sylw i'r polisi ar lyworaeth leol pan gyflwynir papur trafod ar strwythur llywodraeth leol gan Gymdeithas Cynghorwyr Plaid Cymru ar nos Iau.

Mae'n argoeli'n da iawn am gynhadledd gofiadwy, ac yn sicr un ymhlith y mwyaf difyr a drefnwyd gan y Blaid yn ei hanes.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Hywel a Nesta Roberts, Y Felinheli ar enedigaeth bachgen, Hefin Rhys. Mae tadcu sef W J Jones, Y Waun, Caerdydd, a nain sef Mary Roberts, Talar Deg, Llanidloes wrth eu bodd.

## CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA YN EISIAU

Cynorthwywraig pum bore'r wythnos o 9-12. I ddechrau'r tymor yma Manylion y swydd gan yr ysgrifennydd Caerdydd 693254.

# LLONGYFARCH

Ar Awst 25 yng Nghapel yr Annibynwyr Minny Street priodwyd Elen ap Robert, merch Gwilym a Beryl ap Robert, Yr Eglwys Newydd, a Dylan Huws o'r Felinheli, mab hynaf Arfon a Beti Hughes, Bwlchtocyn.

Cymerwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog y Parchg Ieuan Davies a chan dad y briodferch. Yr organydd oedd Euros Rhys Evans, Gwenfô, a chafwyd yn ystod y gwasanaeth unawd a deuawd gan ddwy ffrind y briodferch: Rosalind Martin a Valerie Seymour (Cwmni Opera Cymru). Y cyfeilydd oedd Elizabeth Marcus. Cyfansoddwyd Ymdeithgan Briodasol yn arbennig i'r achlysur gan Dr David Harries, Penarth.

Justine Williams oedd y forwyn briodas a'r macwy bach oedd Robert Carling. Y gwas priodas oedd Emyr Wyn Roberts o'r Felinheli, a'r tywysyddion oedd Iwan Huws, Dewi Harding Jones, Anna McLean a Sian Huws.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Parc, Caerdydd, a roddodd wasanaeth teilwng iawn yng ngofal Mr Phil Thomas, Cymro Cymraeg o Frynaman. Cafwyd cerddoriaeth hyfryd iawn yn y cefndir gan bedwarawd llinynnol o blith ffrindiau Elen a Dylan sef: Elin Edwards, Sue Wakelam, Nicholas Barr a Huw Davies. Gyda'r nos rhoddwyd adloniant tra bywiog gan y grŵp *Ail-Symudiad*.

Aeth y pâr ifanc i dreulio'u mis mêl yn yr Eidal.



# – I ELEN –
# – a –
# – DYLAN –

I'w haelwyd daw â heulwen
– i'w Bwthyn,
ei gobeithion llawen;
Ni fu llais, ni welais wên
anwylach nag un Elen.

I Dylan, ei gyfanfyd a'i haeddiant
yw heddiw a'r ennyd
yw hon fydd iddo o hyd
yn fyw holl ddyddiau'i fywyd.

Deuawd y ddau unawdydd yn uno
dau enaid yn gelfydd,
I gwr y don, o Gaerdydd –
Dwy galon gyda'i gilydd.

**Arfon Huws**

# AR Y BRIG

## Cynllun Theatr Mewn Addysg ar gyfer plant iau Gwent a De Morgannwg

**Derbyniwyd arian ychwanegol gan Theatr Gwent a Theatr Iolo oddi wrth Y Swyddfa Gymreig ar gyfer cynllun Theatr Mewn Addysg drwy y Gymraeg i ysgolion Gwent a De Morgannwg.**

Mae'r prosiect y cynnwys gweithdy rhagarweiniol mewn ysgolion, a ddilynir gan ddiwrnod llawn cyn cael perfformiad o 'Ar y Brig' gyda gweithdy i ddilyn.

Drama sy'n hybu ymwybyddiaeth o faterion yr amgylchedd trwy gyfrwng digwyddiadau a chymeriadau pob dydd yw 'Ar y Brig'. Fe fydd y rhaglen yn ymwneud â nifer o themâu pwysig, sy'n cynnwys ein defnydd o fwydydd ac ynni a'r cysylltiad sy rhyngddynt a'n hamgylchedd.

Doedd Mansel Thomas ddim yn deall beth oedd ystyr "bywyd gwyrdd" er ei fod wedi bod yn cynnal ei hun ar ei dipyn pensiwn a'i ardd gefn ers blynyddoedd.

Fe gaiff ei gythruddo gan ei gymdogion newydd – y Stanleys – sy'n ceisio'i ddarbwyllo i newid ei ffordd o fyw yn gyfan gwbl.

Ond y mae digwyddiadau ar y gweill sy'n bygwth pawb sy'n byw yn y pentref, ac yn awr, mae Mansell yn ei ddarganfod ei hun yn brwydro ochr yn ochr â Roger Stanley a'i deulu, am ei fywoliaeth.

Cynhelir perfformiad or 'Ar y Brig' yng Nghanolfan Celfyddydau Llanofer yng Nghaerdydd, Hydref 19 am 7.30

# CYTÛN: EGLWYSI YNGHYD AR BERERINDOD

**Yn rhifyn Medi o'r Dinesydd buom yn sôn am rwydwaith newydd CYTUN ac fe gynhwyswyd rhestr o'r eglwysi Cymraeg yng Nghaerdydd sydd wedi ymaelodi yng Nghyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yn anffodus, ni chynhwyswyd manylion am y Tabernacl, eglwys y Bedyddwyr. Ymddiheurwn i aelodau'r Tabernacl am yr amryfusedd a fu'n gyfrifol am hynny, a chynhwyswn y manylion am wasanaethau'r Tabernacl yn y rhifyn hwn.**

Roeddem "wedi mynd i'r wasg" ar gyfer y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd cyn i ni oll glywed am farw Y Parch Raymond Williams, gweinidog y Tabernacl. Er nad oedd y newydd trist hwn yn gwbl annisgwyl, nid oedd, pan ddaeth, yn ronyn llai ergydiol. Estynnwn ein cydymdeimlad i eglwys y Tabernacl, i Margaret ac i Rhodri a'i deulu.

Gwyddom fod teyrnged i Raymond yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd, a gwyddom hefyd y bydd eraill yn talu teyrnged iddo mewn cyfnodolion eraill. Serch hynny, ni allwn ni, fel Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, beidio â mynegi'n tristwch ninnau o'i golli. Bu'n gefn cadarn i'r Cyngor dros y blynyddoedd, yn llywydd arno yn ei dro, ac yn gydweithiwr diflino yn y gwaith o geisio dod â ni'n nes at ein gilydd fel enwadau a chyrff gwahanol. Roedd hynny'n unol â'i weledigaeth ac â'i gonsyrn bod goblygiadau hanfodol gymdeithasol i'r Efengyl a bregethai o Sul i Sul. Ef hefyd, yn fwy nag odid neb arall, a fu'n gyfrifol am y syniad o sefydlu cell yng Nghaerdydd i weithio dros fudiad Cristnogion yn erbyn Poenydiuo. Y mae'r cof am ei ffyddlondeb i'r gell a'i ymlyniad wrth weithgareddau'r Cyngor yn ysbrydoliaeth ac yn gynhaliaeth i bawb ohonom sydd heddiw'n ceisio parhau gyda'r gwaith. Fel y dywedodd yr Athro Huw Mathews yn y gwasanaeth angladd, testun diolch sy gyda ni o fod wedi cael y fraint o adnabod Raymond.

☆ ★ ★ ★ ☆

**O dan adain CYTUN ac mewn perthynas â Chyngor Cymraeg Eglwysi Caerdydd y mae'r gell yn erbyn poenydio yn gweithio. Y mae'n cyfarfod bob deufis, yn gyson yn festri Salem, Treganna, ac y mae'n dda dweud bod aelodaeth y grwp yn sylweddol a bod nifer dda o ieuenctid yn eu plith. Bydd yn cyfarfod yno nesaf ar nos Lun, y 19eg o Dachwedd, am 7.30 o'r gloch.**

Yn 1986 y sefydlwyd y gell Gymraeg hon gyntaf. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Eglwysi yn y Tabernacl soniwyd am fudiad Cristnogion yn erbyn Poenydio yng Nghymru a chyfeiriwyd at y gell a oedd yn cyfarfod yn eglwys Ararat, Yr Eglwys Newydd, lle'r oedd y Parch Roy Jenkins, ysgrifennydd Christnogion yn erbyn Poenydio, yn weinidog.

Y mae gwaith y Parch Roy Jenkins dros y mudiad yn destun ynddo'i hun. Ef sy wedi bod yn dosbarthu gwybodaeth (a ddaw o Amnesty International) am garcharorion didrais sy'n cael eu poenydio mewn nifer o wahanol wledydd, er bod poenydio'n gwbl groes i datganiad a wnaed gan Gymanfa Gyffredinol Y Cenedloedd Unedig yn 1975. Mae poenydio yn dramgwydd i urddas dyn, medd y datganiad hwnnw, a mynnir bod pob gwladwriaeth yn sicrhau na fyddid yn caniatau y fath driniaeth annynol. Yn ei lyfr, "You did it for me", y mae Roy Jenkins yn dadlau bod gan Gristnogion gyfrifoldeb arbennig i weithredu ar ran carcharorion sy'n cael eu poenydio, nid yn unig drwy weddi, ond drwy weithredu.

Ef a ddaeth i annerch a chynnig arweiniad i'r aelodau a sefydlodd y gell Gymraeg. Bu Mr Robin Gwyndaf yn gyson ei ymroddiad i'r gwaith o'r dechrau, ac ef yw cadeirydd y gell ar hyn o bryd. Y bwriad yw ein bod yn ysgrifennu at y carcharorion, yn rhoi gwybod iddynt ein bod yn meddwl ac yn poeni amdanynt, yn eu hymgeleddu â'n consyrn. Byddir hefyd yn ysgrifennu at yr awdurdodau perthnasol yn mynegu'n pryder am y rhai sy'n cael eu poenydio. Ffocws ein hymdrechion ar hyn o bryd yw Fernando Garcia, undebwr ifanc a adawodd ei gartref i fynd i'r gwaith un bore yn 1984 yn Guatemala, a "diflannu".

Rhaid i mi gyfaddef fy mod innau, ar y dechrau, braidd yn amheus o'r math hwn o weithredu. Yn rhannol am nad oedd gennyf ddigon o wybodaeth gefndirol; yn rhannol am fy mod (fel pawb arall?) o bryd i'w gilydd yn teimlo na allaf i wneud yn dim i ateb problemau dyrys y byd cymhleth yr wyf yn byw ynddo. Tybed yn wir a yw'r ymdeimlad hwn o anallu'n perthyn yn arbennig i ni sy'n byw yn "y gorllewin"? Ninnau, sy biau digon o arfau – niwclear ac arall – i chwythu'r byd, gan gynnwys Saddam Hussein, yn yfflon rhacs!

Ac eto, yn y misoedd diwethaf, gwelsom "bobl gyffredin" yn gweddnewid dwyrain Ewrob, ac yn gwneud hynny'n heddychlon. Nid heb gost na heb bryder ac ofyn. I rai ohonynt, gwireddu breuddwyd hir ydoedd, a ffrwyth cynllunio dros gyfnod o flynyddoedd. Dyfalbarhau, yn dawel ac yn aml yn y dirgel. Nid cwbl annhebyg yw ffordd y mudiad yn erbyn poenydio: miloedd ar filoedd o bobl yn danfon cerdyn i gynnal ysbryd carcharor; myrdd o gardiau'n cyrraedd yn ddiddiwedd, a hynny ynddo'i hun yn datgan i'r awdurdodau fod pobl ledled y byd yn dangos consyrn. Oes, mae eisiau amynedd, a'r penderfyniad i ddal ati, ac weithiau – nid yn aml, hwyrach – daw'r wefr o wybod fod un wedi'i ryddhau. A theimlo'r wefr er heb allu honni mai ni oedd yn gyfrifol am y rhyddhau. Dyna, debyg, yw un agwedd ar ymarfer gobaith.

Yng nghyfarfodydd y Cyngor ei hun gobeithiwn barhau i drafod goblygiadau'r Efengyl mewn byd sy'n prysur newid. Yn ein cyfarfod nesaf, ar nos Iau, Hydref 11, yn festri Minny Street, cawn glywed gan y Parch Andriamala Alfred am y Ffydd yn Madagascar. Mae ef yn weinidog ar eglwys sy wedi'i hefeillio ag eglwys Minny Street. Mae yma am fis – taith wedi'i threfnu gan ysgrifennydd Cenhadol yr Annibynwyr.

Rydym wedi sôn am y Parch Roy Jenkins, dyn bychan o gorffolaeth, ond tra mawr ei ysbryd. Gorffennwn drwy sôn am George MacLeod, sefydlydd cymuned Iona, a mawr ei gorff a'i ysbryd. Mewn cyfrol sy newydd ymddangos gan Ronald Ferguson (cyhoeddwyr: Collins) yn coffáu MacLeod, fe'i dyfynnir fel hyn: "Idolatry is not essentially the worship of a statue (in Iona or anywhere else!). Idolatry is essentially the workship of a static God . . . our God is the God that moves. The paradox of His changelessness is that He is in constant motion. A reformed church is forever to be reformed".

Efallai y gallwn, yn y dyfodol, estyn ein gorwelion ymhellach a chanfod bod eciwmeniaeth yn gofyn am gynnal deialog gyda Mwslemiaid, ac eraill.

**Illtyd Lewis**

**TABERNACL, EGLWYS Y BEDYDDWYR, YR AIS**

Ysgrifennydd: Mr D Eurig Evans (757326)

Sul am 10.45am Oedfa deuluol ac Ysgol Sul yn dilyn.
3.00pm Te i'r anffodusion.
6.00pm Oedfa.

Nos Fawrth am 7.30 Y Gymdeithas.
Dydd Iau am 3.00pm Cwrdd Chwiorydd.
Nos Iau am 6.30pm Cwrdd Gweddi.
Sadwrn am 9.30am Bore Coffi (elw i elusennau gwahanol).

Crefftau Cyfoes mewn

Ffasiwn

2-7 Tachwedd

1990

Noddwyd Gan

PUROLITE INTERNATIONAL



MODEL HOUSE

MODEL HOUSE
Bull Ring, Llantrisant
Morgannwg Ganol CF7 8EB
☎ Llantrisant (0443) 237758

▶ SIOEAU FFASIWN
▶ ARDDANGOSFEYDD
▶ ORIEL MÂN-WERTHU
▶ MENTER BWYSIG MEWN ATEGION FFASIYNOL A GEMWAITH

---

Eich cyfle chi i roi cymorth

Mae ACEN yn lansio cyfres newydd shon ar S4C ar gyfer oedolion sydd am ddechrau dysgu'r Gymraeg.

Darperir tapiau sain a phecyn pythefnosol o weithgareddau i gydfynd â'r gyfres ond bydd angen ymarfer siarad ar y gwylwyr.

Rydym felly yn cydweithio â CYD i ffurfio grwpiau lleol a fydd yn cyfarfod i ddilyn cyfres o weithgareddau.

Ond bydd angen siaradwyr rhugl i sicrhau bod yr ynganu yn gywir ac i ddarparu gair neu ddau os bydd angen.

Hoffech chi gynorthwyo? Beth am anfon am fwy o fanylion?



NOW YOU'RE TALKING

Dylid dychwelyd y ffurflen i:
ACEN
Black Post 4000
Caerdydd
CF5 2XT

acen

Mae Acen yn cael ei noddi gan
BWRDD DATBLYGU CYMRU WLEDIG
DEVELOPMENT BOARD FOR RURAL WALES

---

MOVING BEING

DALIER SYLW

Y CWMNI

YN ST STEPHENS THEATRE SPACE, WEST BUTE ST, Y DOCIAU

SWYDDFA DOCYNNAU CAERDYDD

498885

# MAMIAITH/ MOTHERTONGUE

TYMOR SY'N CYNNWYS TRI CYNHYRCHIAD SYDD, TRWY ARDDULLIAU AMRYWIOL, YN TRAFOD IAITH, CYFIEITHIAD A HUNANIAITH DIWYLLIANNOL, CWESTIYNAU SYDD WRTH WRAIDD THEATR YNG NGHYMRU

24 HYDREF-3 TACHWEDD - 8.00yh

## KASPAR

gan PETER HANDKE

7-17 TACHWEDD – 8.00yh

## LARGO DESOLATO

gan VÁCLAV HAVEL

21 TACHWEDD-1 RHAGFYR – 8.00yh

## THE MYTH OF MICHAEL RODERICK

gan EDWARD THOMAS

TOCYNNAU: £6.50 (gost £3.50)
TOCYN I'R TRI CYNHYRCHIAD: £15.00 (£9.00)

---



Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## GWEITHGAREDDAU'R HYDREF

Bydd rhaglen amrywiol yn cael ei lansio yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn ystod mis Hydref, gydag wythnos arbennig o weithgaredd yn ystod hanner-tymor ar gyfer y plant.

- Cerddoriaeth byw
- Gweithdai dan ofal arbenigwyr yr amgueddfa
- Arddangosiad crefftau

Am rhaglen llawn o weithgareddau'r Hydref, cysyllter â:

Yr Adran Marchnata
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Ysgubor Fawr, Sain Ffagan CF5 6XB
Ffôn: (0222) 555 105

# AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS

Arddangosfa o 60 o ddarluniau yn cynnwys 14 o gasgliad yr Amgueddfa Cenedlaethol·

John Piper efallai yw'r olaf yn y llinach hynny o Saeson a swynwyd gan Gymru, ac sydd yn cael ei gydnabod gyda'r goreuon o rai tebyg.

Gallwn fynd yn ôl i 17 ganrif gyda Francis Place, ac yna ymysg eraill, enwau fel Paul Sandby (1730-1809); J C Ibbetson (1759-1817); David Cox (1783-1859); J C Cotman (1782-1842); a J M W Turner (1775-1857).

O ddiwedd y ganrif ddiwethaf, ni fu arlunydd Saesneg o bwys yma hyd nes i John Piper ddechreu gweithio yn Sir Benfro.

Un gwahaniaeth rhwng y rhai uchod a John Piper, yw ei fod ef fel Graham Sutherland wedi ymgartrefu rhywfaint yng Nghymru, ac wedi cynhyrchu corff sylweddol o waith o bwys dan ddylanwad y wlad a'i phethe. Ganed y ddau yn 1903 ond bu farw Sutherland yn 1980.

Llwyddodd John Piper i gren dulliau newydd o ddefnyddio dyfrlliw gan gymysgu'r cyfrwng ar dro gyda *collage*. Tynnodd sylw yn aml at bensaernïaeth, yn enwedig capeli Cymru y tu mewn yn ogystal â'r tu allan, a hyn bron cyn i ni'r Cymry sylweddoli eu harbenigrwydd. Y mae hyn yn siŵr o fod yn wir heddiw mewn oes o gau a thynnu i lawr.

Gwnaeth nifer fawr o dirluniau yn Sir Benfro, lle cartrefodd, ac yng Ngogledd Cymru yn ardaloedd Eryri a Sir Fôn. Ar un adeg fe wnaeth restr o holl gapeli ac eglwysi Sir Fôn ynghyd â gwybodaeth am eu cynnwys.

Nid yw wedi derbyn llawer o gydnabyddiaeth ar gyfandir Ewrop, ond mae ei waith yn boblogaidd iawn yn America. Cyfle i fwrw golwg ar ran fach o'i gynnyrch – mae'n haeddu'n sylw ni.

Trefnwyd yr arddangosfa deithiol hon gan Oriel 31, y Drenewydd, gyda chatalog uniaith Saesneg. Y mae catalogau dwyieithog yn mynd yn brinnach o hyd.

### ORIEL, HEOL TŶ'R BRODYR JAMES, JONES A WILLIAMS MEWNOLWG CYMRU 6 HYDREF-3 TACHWEDD


Dyna braf yw cael tynnu sylw at y cyntaf o gyfres o sioeau dau/tri pherson o waith artistiaid iau Cymru.

Yr ydym wedi cwyno nad oes digon o gyfle yn cael ei roi i artistiaid o Gymry yn orielau cyhoeddus Caerdydd.

Y nod yw rhoi sylw iddynt dros gyfnod o amser, drwy gomisiynu ac arddangos gwaith newydd gan gynnig mewnwelediad newydd ar faterion sydd o'r pwys mwyaf i artistiaid cyfoes iau.

Priodol yw, fod yr arddangosfa gyntaf hon yn dangos gwaith newydd tair merch sy'n gweithio yng Nghaerdydd, sef Maggie James, Deborah Jones a Sue Williams. Bwriedir i bob un o'r artistiaid gynnal gweithdai i blant. Manylion pellach o Oriel.

**SD**



*Sue Williams "Y Tyndra" 1990.*

# DIOLCH

*I Gwyneth a Hywel Jeffries am drefnu trip i Ganada*

Ymhell dros fôr Iwerydd
Aeth criw o Gymry glân,
Yn genadwri hawddgar
Â Hywel ar y blân.
Fe syfrdanwyd pobun
A ganfu'r cwmni llon,
Pob un yn benderfynol
O joyo'r siwrne hon!
Mewn tri châr hardd mawreddog
Fe deithion ar drawsgwlad,
Ein bagiau ar ein harffed
A rhagor dan ein trâd!
Mewn llinell hir trafoelom
Â Gwyneth wrth y llyw,
Ein harwain wnaeth yn ddiogel
Dros diroedd prydferth gwiw.
Rhaeadrau pur Niagara
An syfrdanodd ni,
A golygfeydd anhygoel
An hudodd ni au bri.
Ottawa osgeiddig
A Toronto fawr ei maint,
Quebec y ddinas hyfryd
St Anne a mangre'r saint.
O le i le fe wibion
Fel clêr o fan i fan.
A het wellt liwgar Hywel
I'w gweld mewn llys a llan!
Cyn toriad gwawr bawb bore,
Gosodwyd tasgiau'r dydd,
Rhaid oedd i bawb farddoni
Yn gaeth neu yntau'n rhydd.
Nosweithiau bythgofiadwy
Dreuliasom yn llawn sbri,
A Wil y meuryn hawddgar
Yn ein diddori ni,
Mae llu o ddigwyddiadau
Yn llanw'r côf a sbri
A llonni wnant nosweithiau
Gaeafol tywyll du.
Felly diolch wnawn yn eiddil
Am gwmni clos a'r daith,
Am brofiadau bythgofiadwy
A Hywel am ei waith.

**Gwenda Morgan**

# SEITHFED YSGOL

CYNHELIR Y CYFARFOD I RIENI PLANT MEITHRIN CANOL/DWYRAIN CAERDYDD, Y SONIWYD AMDANO YN RHIFYN DIWETHAF Y DINESYDD NOS FAWRTH, HYDREF 16 AM 7.30 YN NEUADD GYMUNED Y RHATH AR NINIAN ROAD.

# HEL MEDDYLIAU

**Fis Awst fe fûm yn nant Gwrtheyrn i weld y wyrth. Y tro diwethaf imi fod yno oedd dechrau'r chwedegau pan oedd y lle yn fwy o fynwent nag o le i fyw ynddo. 'Roedd y rhes o dai, ar wahân i un tŷ lle trigai brawd a chwaer, yn furddun bob un. 'Rwy'n cofio sgrifennu am y profiad erchyll mewn ysgrif ar gyfer Eisteddfod Llanelli yn 1963 – "Ias" oedd y testun a'r beirniad, gyda llaw, oedd yr Athro T J Morgan. Enillais i ddim! Ond fel hyn yr ysgrifennais i bryd hynny:**

"Arswyd o le! Mynwent heb obaith yr Atgyfodiad. Mae ysbrydion dieflig y gorffennol yn hofran ymhob man. Y mae hagrwch y murddun ar bob llaw, y tai di-do yn rhythu'n oer ar y diwrnod poethaf o haf. Adfail yw'r capel ac nid oes gwahaniaeth rhwng tŷ meistr a thŷ gweithiwr. Buasai Ellis Wynne yn creu llenyddiaeth o'r fath le. Pam y farn ar le fel hwn meddwn wrthyf fy hun. Buasai'r rhamantydd yn tadogi'r farn ar Wrtheyrn ei hun. 'Yntau'r teyrn trythyll, traetwr ein traeth' meddai bardd cadeiriol Pwllheli yn 1955. Neu ynteu am fod chwedl Rhys a Meinir yn hofran o gwmpas y lle o hyd? Diflannodd y ferch drwy'r agen yn y goeden ac mae ei hysbryd yno o hyd. Meddai Cynan: 'Mae ceubren crin ar Graig y Llam, a'i foncyff praff yn ddellt.' Ni welir y boncyff yn unman heddiw ond mae'r atgof iasol yn awel y lle.

'Y Rhyfel a'i lladdodd medde' nhw. Ie, lladd yw'r gwir plaen er ei fod yn ateb diramant, oer. Ac nid yw'r gwanwyn, hyd yn oed, yn dod â bywyd yno bellach. Nid af yno eto. Byth.'

Ond bûm yno'r haf 'ma! A thorri'r llw! Digwyddodd y wyrth. Digwyddodd yn allanol oherwydd lle bu llwybr i lawr i'r Nant yn 1963 mae ffordd yno heddiw; mae coed lle bu dim. Mae'r tai a'r dysgwyr wedi gweddnewid y lle i gyd.

Trodd ias yn wefr, anobaith yn obaith a marwolaeth yn fywyd.

Mae'n swnio fel pregeth medde rhywun. Wel, pam lai? Dyna wna Cristnogaeth hithau, tro ias yn wefr. Cofiwch chi, mae'r ffin yn denau iawn weithiau rhwng y ddau oherwydd onid oes ochr dda i ias weithiau? Cewch chi feddwl am y peth.

Mae Rhys Nicholas yn ei emyn mawr yn defnyddio'r gair 'ias' yn waith fel y cofiwch: "'Rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,/'Rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu . . ." Ias, ie, ond i wneud yn gwbl siwr o'r ochr dda iddo fe rydd y gair "ddwyfol" o'i flaen. Mae'r bywyd Cristnogol, fel adfywiad Nant Gwrtheyrn, yn rhan o ramant codi'r marw yn fyw.

Y pnawn yr oeddem yno, buom yn ffodus i gyfarfod â gŵr a fu'n gweithio yn y chwareli cyn y Rhyfel ac ennill, meddai ef "wyth geiniog neu naw yr awr". 'Roedd yn cerdded yn ôl a blaen o Lithfaen bob dydd i'r gwaith, ymhob tywydd, haf a gaeaf. Soniais wrtho am stori Gruffydd Parry yn y gyfrol *Crwydro Llŷn ac Eifionydd* am y cyhoeddwr yn y capel yn y Nant ar nos Sul yn son am "foddion yr wsnos" ac yn gofalu dweud bob amser: "Seiat nos Ferchar os na fydd 'na long"!

'Roedd y gŵr yn cofio'n iawn.

Braf ydy cael y profiad o ias yn troi yn wefr.

**Huw Ethall**

# GŴYL CERDD DANT – BRO MORGANNWG 1991

CYNHELIR FFAIR CYHOEDDI YR ŴYL YN YSGOL ST CYRES PENARTH DDYDD SADWRN, TACHWEDD 3YDD

FE FYDD YNA NIFER O STONDINAU AC ARDDANGOSFEYDD A THRWY GYDOL Y PRYNHAWN CYNHELIR AMRYWIAETH O EITEMAU CERDDOROL..

ESTYNNIR CROESO CYNNES I BAWB.

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

Annwyl Olygydd,

**SEITHFED YSGOL YN Y RHATH?**

Syndod mawr oedd darllen tudalennau'r Dinesydd a deall am y tro cynta bod yna symudiadau ar droed am Ysgol Gymraeg arall yn nalgylch Bro Eirwg. Syndod mwy oedd darllen ein bod yn llawn dop, (a'n bod ni wedi symud o Dredelerch i Lanrymni).

Gan fod dwy stafell gennym yn dal yn wag carwn sicrhau rhieni a darpar rieni nad ydym yn llawn dop o gwbl – yn llenwi efallai, ond heb fod yn llawn.

Yn ddiau, y ffordd ymlaen gydag Addysg Gymraeg yw sicrhau mwy o ysgolion. Efallai nad yw'n hysbys i'r to presennol mai'r rheswm y mae Bro Eirwg yn Nhredelerch o gwbl yw nad oedd lle nac adeilad chwaith ar gael yn ardal y Rhath pan symudwyd ni o adeilad Bryntaf yn y Rhodfa. Collwyd y frwydr hynny yn 1983 ac mae'r ysgolion awgrymwyd bryd hynny – Allensbank, Lakeside, Albany Road, a Pharc y Rhath – bellach yn llawnach o dipyn. Yn y dwyrain, mae gwir angen ysgol yng Ngogledd Pentwyn, ardal sy'n anghysbell iawn o Fro Eirwg a'r Wern; y Dociau; ac erbyn '95, os gwna'r galw ddal i gynyddu, Llaneirwg.

Braf fuasai gweld Ysgol Gymraeg ym mhob cymuned yng Nghaerdydd, ond yn y byd sydd ohoni tybiaf y bydd ymgyrchu'n unedig mewn ardaloedd fel yr uchod lle mae adeiladau neu dir ar gael yn fwy proffidiol.

Yn gywir iawn,

**Elfan W Jones**

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Martin a Meredid Hopwood ar enedigaeth merch fach – Miriam Emily Haf, chwaer fach i Hanna. Y ddau deulu yn llawenhau yn nyfodiad yr un fach.

### CYDYDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mari Price a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Mam a Mamgu. Bu farw Catherine Griffiths ar Awst y 30ain ac roedd yn aelod yn Minny Streety.

# MENNA'N MANYLU



**Dyma hi'n hydref unwaith eto a chynhyrchion natur yn gynnar iawn eleni ymhob cwr o'r wlad.**

Mi fuom yn hel mafon duon a chnau ar hyd cloddiau Tregaron yn ddiweddar achos yno fuodd pump ohonom ar anturiaeth arall trwy Gymru.

Cwestiwn pawb cyn mynd, ar ôl cyrraedd ac wedi dychwelyd oedd 'Pam Tregaron?' A'r ateb swta oedd 'Pam ddim?' Roedd yn dipyn brafiach treulio amser mewn ardal wledig efo Cymry pybyr na thrafferthu i yrru neu hedfan am benwythnos i rwle fel Cernyw, Caer Efrog, Llunden neu Baris.

Dyma gyrraedd y Talbot ar ôl gwaith nos Wener – fi o'r brifddinas (2 awr a ½), Ceri o Lanuwchllyn (Awr a ½), Ann a Sian o Fôn (2 awr a ¼) a Dianna o Henffordd (2 awr a ¼) – a dyne bedwar car rhwng pump ohonom!!

Roedd croeso gwresog a chartrefol yn ein haros gan Graham, mab i berchennog y gwesty, a braf oedd ei weld o a Sali yn llwyddo i gadw busnes mor llwyddiannus mewn ardal amaethyddol.

Bu nos Wener yn weddol barchus – mwynhau swper a sgwrs efo'r bobol leol yn y bar, ac roedd Dianna hithau, er yn Saesnes, yn gwerthfawrogi Cymreictod ac agosatrwydd yr ardal. Dydd Sadwrn, ar ôl bolied o frecwast, cerdded am dro i'r wlad a heibio capel lle roedd priodas cwpwl o'r dre. Gweld dwy neu dair o'r gwaith yn siopa a chloncian ar y stryd a chael ein cynghori i fynd am sbin i Lanbed i sêl BJ! Felly y bu, ac ymlaen o fanno i Llanddewifrefi i lychu pig ddiwedd pnawn yn y New Inn. Roedd y pentref ar ei newydd wedd gan fod y gyfres deledu "We are Seven" yn ffilmio yno, ac roedd yn anodd i ddieithriaid fel ni wahaniaethu rhwng y sét a realiti!

Ar ôl sgwrs hir a di-sylwedd efo Ianto, gyrru ymlaen i Ystrad Meurig, ond penderfynwyd peidio talu tâl mynediad i'r Abaty gan ein bod yn medru gweld digon dros wal y fynwent. Yma mae "deuddeg Abad yn y gro yn huno yno'n dawel", a hyfryd oedd gweld carreg goffa i Dafydd ap Gwilym (1320-80) o dan yr ywen. Rhyfedd meddwl fod ei brofiade fo yn cael trafferth mewn tafarn yn rhai digon tebyg i'n rhai ni y noson honno, ond mai dau bostman oedd yn ein poeni ni ac nid Morfudd a Dyddgu. Dydi amser yn newid dim yn y bôn yn nachdi a phawb yn dal mewn "Cydfod mwyn, cyd yfed medd" fel y dywedodd y dyn ei hun; a finne newydd ddathlu fy mhenblwydd teimlwn "gynt yr oeddwn, gwn ganclwyf, yn oed ieuenctid a nwyf"!!

Wrth ddychwelyd i'r gwesty am 'wash a shêf' yn y nos, cyfarfod Graham a'i gariad a lleoliaid y dre gan gynnwys gwahoddedigion y briodas, ac Ann Sunnyhill! Wel, mi ellwch gesio – welsoni run bath na dim arall tan ein gwely yn orie mân y bore. Ond roedd yn braf cael cyd-ganu efo'r ffermwyr lleol a gweld Dafydd, un o'r pum brawd Nantllwyd. Gwelsom Dafydd hefyd bnawn Sul gan i ni fynd i glywed pregeth y Parch Glyn James, Ferndale yn Soar y Mynydd. Byrdwn ei bregeth oedd i ni beidio â byw i'r gorffennol na'r dyfodol ond yn hytrach byw i heddiw, felly dyma neud hynny, a theipio'r pwt yma – rhag ofn na fyddai yma'n de (fel y dyn sâl).

# TEYRNGED I IFAN WYN

**Roedd Ifan Wyn yn glamp o ddarlledwr a radio oedd ei briod faes. Dyn BBC oedd o a safonau gorau'r BBC oedd ei eiddo fo. Mae'n wir iddo fentro allan o gorlannau Llandaf a Bangor i Gaerfyrddin, Penygroes a Rhydfelen ond yn ôl y mynnai ddod bob tro. Fe wn y gallai fod wedi cael gyrfa ddisglair iawn yn academia – tasa ganddo fo'r amynedd i dorri glo man y fanach. Diolch i'r nefoedd nad y ffordd honno yr ymlwybrodd. Colled y Brifysgol oedd ennill y BBC.**

Roedd Ifan yn feistr ar yr iaith Gymraeg a dros y blynyddoedd dwetha ma fe gyfoethogodd eirfa darlledu yn Gymraeg. Weithiau mi fydda fo yn tynnu blewyn o drwyn ambell un gydag ambell air. Pwy anghofia'r ffrae yn yr Ystafell Newyddion ynglŷn â'r gair "gwlff" – Ond roedd dadleuon Ifan yn gadarn a bellach mae'r gair wedi hen ennill ei le yn ein geirfa. Mae nifer o eiriau a thermau eraill a fathodd Ifan bellach yn rhan annatod o'n iaith bob dydd. Roedd o'n credu'n gryf ym mhurdeb iaith ddatblygedig.

Roedd ei ofal am yr iaith Gymraeg yn angerddol. Ond eto mewn cwmni bychan fe'i clywais o'n deud lawer tro – "I be da'n ni poeni am y Gymraeg. Mae hi ar ben arni bois". Ond y bore dilynol, byddai wrthi unwaith eto mewn sgrifen ac ar lafar – yn ei hanwesu a'i datblygu.

Fyddai Ifan byth yn ei ystyried ei hun fel newyddiadurwr wrth reddf. Ac eto ddwy flynedd yn ôl pan ofynnwyd iddo ymgymryd â swydd Golygydd Newyddion Radio Cymru fe aeth at y gwaith gydag arddeliad a brwdfrydedd. Gallodd ennyn parch a chydweithrediad y criw o bobl ifanc bywiog a weithiau iddo. Roedd yn symbylwr ac yn ysbrydolwr greddfol. Fe ymdaflodd i holl agweddau'r gwaith gan sicrhau nad oedd o byth yn gofyn i neb wneud dim nad oedd o'n bersonol yn fodlon ei wneud ei hun.

Meistr tyner oedd Ifan . . . rhy dyner weithiau. Roedd beirniadu a disgyblu y boendod iddo fo. 'Roedd o'n rhy fonheddig i fod yn gas. Y boneddigeiddrwydd hwnnw a berthynai gynt i'r gymdeithas chwarelyddol yn Nyffryn Nantlle – neu Ddyffryn y Darostyngiad fel byddwn i'n galw'r lle pan fyddwn yn tynnu ei goes o.

Roedd Ifan hefyd yn gyfaill go iawn. Pan ddes i'r BBC ryw wyth mlynedd yn ôl, fe gefais i bob croeso ganddo fo. A dros y blynyddoedd fe gefais lawer o gynghorion tawel gynno fo ar sut i wynebu problemau personol a phroblemau gwaith – a chlywodd neb air yn unman am y sgyrsiau hynny. Fe gefais ambell i glo dyner yn fy setin, chwedl Wil Sam, ganddo hefyd pan oedd galw – a chafodd neb wybod am hynny chwaith. Dyna imi ydy cyfeillgarwch – a dyna oedd cyfeillgarwch Ifan Wyn.

Doedd o ddim heb ei feiau a'i wendidau. Heb ei fai heb ei eni meddai'r hen air. A doedd neb yn fwy hunanymwybodol o'i fethiannau nag Ifan Wyn. Roedd o'n hunanddadansoddi yn aml iawn yn dawel boenus, mor boenus nes ei fod o'n cleisio ac yn dolurio ei emosiwn a'i enaid ei hun. Roedd y pyliau o hunanddadansoddi wedi bod yn dig-wydd yn amlach yn ddiweddar a'r hunangosbi eneidol wedi mynd yn ddyfnach bob tro.


Ond ddigon am hynny. Fe ddeudais i ar y cychwyn mai dyn y BBC oedd Ifan Wyn ac mae'r llythrennau yna yn rhoi darlun cryno o'i bersonoliaeth wiw – BBC.

Breuddwydiwr rhamantaidd

Bonheddwr caredig

Cyfaill fyddlon

Diolch amdano fo a Heddwch i'w lwch.



## CROESAIR AP LEWSYN Rhif 104 Hydref 1990

AR DRAWS:


6. Y mae'n gwneud ei syms yn wallus. (10)
8. Mae'r gân yn rhodio. (4)
9. Dod o hyd i'r gair yn Aberdâr gan fod yno lyfrgell dda. (9)
11. Hen foi o Forgannwg. (4)
12. Yr Iôr, dan enw cyffelyb. (3)
13. Pen fel meipen? Yn ddi-sens yn y rwdins wedi'u berwi. (9)
16. Brawd magi, medd rhai. (4)
17. Bu Saeson yn ymyrryd yn y mater, ond doedd ganddynt ddim mwy i'w gynnig. (7)
18. Baich y De yn ddigon i achosi gwaedd. (7)
20. Wele! (4)
21. Mae hi'n rhedeg drwy Ddolgellau. (4,5)
23. ". . . ar fy mhen dy sanctaidd law". (Eifion Wyn) (3)
24. Deiseb er atal halogi'r amgylchedd yn dwyn arwydd helm. (4)
25. Fe ddarfu iti sefyll o'i flaen, er fod y bws tan ei sang, yn ysgwyd. (9)
29. Gwelir mai bara yw un pwynt o'r thema. (4)
30. Petruster ofnus oedd yn gyfrifol am frys un werdd. (10)

I LAWR:

1. Llaca. (4)
2. Pŵer hen-ffasiwn a gafwyd o'r gaer. (4)
3. ". . . Dduw a chadw ei orchmynion." (Llyfr y Pregethwr) (4)
4. Daw rhywbeth aruthrol o fradwri. (7)
5. Naw brolgar sydd yn honni eu bod yn medru trefnu i fesur safbwynt y miloedd. (6,4)
7. Heb ein gadael ni eto. (2,3,1,3)
8. Byddai yn cwyno. (9)
10. Mae Gwynedd yn meddu ar ddwy afon – un ohonynt sydd yma. (3)
13. Fel Janws – y duw rhagrithiol? (10)
14. Y saith aden sydd gan gorff o feddyliau. (9)
15. Tywyllwch sy'n para am ryw bum awr ar y blaned fawr, ar ddiwedd yr wythnos. (3,6)
19. Gosododd do i ffwrn yn y gwaith haearn. (7)
22. Yr arch-bensaer. (3)
26. Hen broffwydoliaeth. (4)
27. Un ar ganolris y bendefigaeth. (4)
28. Bryncyn y ceir ei ben ar gyrion Caerdydd. (4)

### CYSTADLEUAETH RHIF 104

Tocyn llyfr £5 eto. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Hydref 17eg, os gwelwch yn dda.



Datrysiad Rhif 103 – Medi 1990

### CYSTADLEUAETH RHIF 103

Derbyniwyd dau-gynnig-ar-bymtheg a phob yn ohonynt yn gwbl gywir. Yr enw ffodus a ddaeth o'r het oedd eiddo James Wiegold, 131 Heol-y-Deri, Rhiwbeina, ac fe fydd yn derbyn yn tocyn llyfr am £5 yn fuan. Enwau'r datryswyr cywir ond aflwyddiannus oedd: Hywel Jones, Y Maendy; Gareth Blainey, Pontypridd; Buddug Roberts, Yr Eglwysnewydd; Dewi Rhisiart, Treganna; Mrs G M Hopkins, Llanishen; John Hughes, Llanisien; I Hughes, Y Mynydd Bychan; Heledd Hall, Treganna; Marged Davies, Llandaf; John G Bresse, Glan-yr-afon; Nan Rees, Y Barri; Beryl Hall, Cyncoed; Huana Simpson, Y Bontfaen; Robin Bateman, Yr Eglwysnewydd; Meurig Thomas, Y Rhath; Carys Humphreys, Bangor.

## TELYNEG Y MIS

"Cadwaf fy ngŵyl" medd bywyd,
"Galwaf fy ngwyrdd yn ôl;
Casglaf fy mlodau adref
O'r mynydd, yr ardd, a'r ddôl" –
Clybu y maes a'r prennau,
A rhywbryd rhwng hwyr a gwawr
Cyfododd y gwersyll blodau –
Mae'r pebyll yn llwyd hyd y llawr.

Caua y dydd ei lygad
Cysglyd yn gynt a chynt;
Clywir lle bu'r uchedydd
Ryferthwy y gwlaw a'r gwynt.
Cryn y binwydden ieuanc,
Cydia'n y mynydd mawr –
Ni ellir goroesi gaeaf
Heb wreiddio yn ddwfn i lawr.

Cyfyd y môr ei donnau,
Cyfyd yn uwch ei ru;
Tybed ddaw'r llong i borthladd,
A'r morwr yn ôl i'w dŷ?
Diolch i Dduw am aelwyd,
A diolch i Dduw am dân;
Mae rhywrai heb dân nac aelwyd
Na chalon i ganu cân.

**Eifion Wyn**


DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.



DINESYDD


PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*
**Gareth Whelan**
Cae'r Delyn
Sant Hilari
Y Bontfaen
CF7 7DF
☎ 0446 772888

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn Tachwedd/Rhagfyr
**19 – 10 – 90**
14,400 o ddarllenwyr


DEWCH ADRE I
DINAS
HTV
NOS LUN A NOS WENER AM 7o'r GLOCH AR S4C